# ADOLYGIAD O DDATBLYGIAD UN BLANED YNG NGHYMRU, 2010-2021

MEDI 2022

CYNGOR UN BLANED




| | | |
|---|---|---|
| | Crynodeb Gweithredol | 3 |
| | Rhagair gan Sophie Howe | 4 |
| | Cyflwyniad o'r Cyngor Un Blaned | 5 |
| 1 | Beth yw Datblygiad Un Blaned? | 6 |
| 1.1 | Cyd-destun y polisi DUB | 7 |
| 1.2 | Gofynion y polisi DUB | 8 |
| 2 | Tystiolaeth llwyddiant: DUB 2010-2021 | 9 |
| 2.1 | Safleoedd a phreswylwyr DUB | 10 |
| 2.2 | Ôl-troed ecolegol | 14 |
| | Bywyd gydag ôl-troed Un Blaned | 16 |
| 2.3 | Cynhyrchiant: bwyd | 17 |
| | Ciplun: Tyfu Bwyd | 18 |
| 2.4 | Cynhyrchiant: mentrau ar y tir | 19 |
| | Ciplun: Menter Un Blaned | 20 |
| 2.5 | Ynni a dŵr | 21 |
| | Ciplun: Byw mewn tŷ di-garbon | 22 |
| 2.6 | Trafnidiaeth | 23 |
| | Ciplun: Lleihau effaith teithio | 24 |
| 2.7 | Bioamrywiaeth ac adfer natur | 25 |
| | Ciplun: Gwneud lle i fywyd gwyllt | 26 |
| 2.8 | Effaith ar y gymuned | 27 |
| | Ciplun: Cymryd prentisiaid | 28 |
| 2.9 | Effaith ar yr iaith Gymraeg | 29 |
| | Ciplun: yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymru | 30 |
| 2.10 | Llesiant | 31 |
| | Ciplun: Bywyd Un Blaned | 32 |
| 2.11 | Tai di-garbon | 33 |
| | Ciplun: Adeiladu ddi-garbon | 34 |
| 2.12 | Myfyrio ar y cyfnod sefydlu pum mlynedd | 35 |
| | Ciplun: Pum mlynedd ddwys | 36 |
| 2.13 | Arloesedd, dysgu ac arweinyddiaeth | 37 |
| | Ciplun: Arloesedd carbon isel | 38 |
| 2.14 | Arweinyddiaeth rhyngwladol | 39 |
| 3 | Ceisiadau DUB am ganiatâd cynllunio, 2010-2021 | 40 |
| 3.1 | Nifer y ceisiadau | 41 |
| 3.2 | Yr amser a gymerir i benderfynu ar gais | 43 |
| 3.3 | Canlyniadau'r ceisiadau | 45 |
| 3.4 | Profiad ymgeiswyr o lywio'r system gynllunio | 46 |
| 4 | Datrys yr heriau i Ddatblygiad Un Blaned | 47 |
| 4.1. | Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (CAC) | 48 |
| 4.2 | Mynd i'r afael â phryderon awdurdodau cynllunio lleol | 50 |
| 4.3 | Lleihau'r amser a gymerir i benderfynu ceisiadau | 51 |
| 4.4 | Egluro'r gofynion ynghylch cofnodi parhaus | 52 |
| 4.5 | Diweddaru'r Canllaw Ymarfer | 53 |
| 4.6 | Diweddaru'r Gyfrifiannell Ôl-troed Ecolegol | 54 |
| 4.7 | Archwilio dulliau eraill o DUB | 55 |
| 4.8 | Mynd i'r afael â'r mythau a'r camdybiaethau | 55 |
| 5 | Beth all DUB wneud ar ran cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru? | 56 |
| 6 | Crynodeb o'r canfyddiadau a'r argymhellion | 60 |
| | Gwybodaeth am y Cyngor Un Blaned | 63 |

# CRYNODEB GWEITHREDOL

**Mae Datblygiadau Un Blaned yng Nghymru yn cwrdd â'u targedau:** yn byw gydag ôl-troed ecolegol Un Blaned, adeiladu cartrefi di-garbon, sefydlu busnesau newydd ar y tir ac yn creu cynefinoedd a chynyddu bioamrywiaeth ledled Cymru.

**Mae safleoedd Datblygiad Un Blaned yn arwain y ffordd i Gymru fod yn Genedl Un Blaned.** Mae DUBau yn arddangos ffyrdd modern ac arloesol o fyw gydag ynni adnewyddadwy, teithio llesol, cymunedau lleol cydlynus a ffyniant cyffredin ar lefelau defnydd cynaliadwy. Mae DUBau yn gwneud mwy o ddefnydd o'r iaith Gymraeg nas gwelir ar gyfartaledd, yn defnyddio busnesau lleol ac yn cynnig cyfleoedd rhannu sgiliau a derbyn prentisiaethau.

**Mae Datblygiadau Un Blaned yn arloeswyr ym maes adfer natur.** Yn aml wedi'u lleoli ar safleoedd a ddiraddiwyd yn ecolegol, mae DUBau yn creu mosäig o gynefinoedd, ac yn rheoli tir yn weithredol ar ran ystod o rywogaethau. Byddai modd defnyddio'r hyn a ddysgwyd o safleoedd DUB i lunio fframweithiau adfer natur ar raddfa ehangach.

**Byddai modd gostwng y rhwystrau mynediad mawr drwy weithredu a dargedir.** Dim ond 38 safle DUB sydd wedi derbyn caniatâd cynllunio ers i'r polisi gael ei gyflwyno yn 2010. Cyflwynwn set o argymhellion i geisio cynyddu'r niferoedd sy'n cymryd rhan drwy leihau'r cymhlethdod a gwneud y polisi yn gliriach ac yn fwy hygyrch, tra'n cadw'r gofynion llym am gynaliadwyedd ecolegol, economaidd a chymdeithasol.

**Mae Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (CAC) yn elfennau allweddol o ddatblygiad polisi DUB.** Mae ein canfyddiadu yn awgrymu y bydd mynd i'r afael ag ystyriaethau CAC, ac esblygu'r polisi fel ei fod yn fwy hygyrch i'r holl ymgeiswyr posibl, yn dod â budd mawr i bawb sy'n ymwneud â Datblygiad Un Blaned. Mae CAC wrth galon ein hargymhellion.

**Byddai gwelliannau yn y broses gynllunio yn lleihau'r baich ar adrannau cynllunio ac yn gweud DUB yn fwy hygyrch i bawb.** Yr ydym o'r farn bod yr adnoddau a ddefnyddir ar hyn o bryd gan adrannau cynllunio i asesu DUB yn anghymesur ac yn creu straen diangen. Yr ydym yn argymell bod dull mwy cyson yn cael ei amlinellu yn genedlaethol.

**Mae Datblygiad Un Blaned yn esiampl o'r math o bolisi sydd ei angen i gwrdd â dyheadau Cymru** parthed â thaclo argyfyngau hinsawdd a bioamrywiaeth, cyrraedd "Sero Net", adfywio cymunedau gwledig Cymraeg eu hiaith a blaenoriaethu llesiant cenedlaethau'r dyfodol. Mae gan Gymru hanes hir o arweinyddiaeth amgylcheddol. Mae enw da, yn rhyngwladol, i Ddatblygiad Un Blaned, ac mae'n fodel i ddatblygiad polisi mewn gwledydd eraill.



# RHAGAIR GAN SOPHIE HOWE, COMISIYNYDD CENEDLAETHAU'R DYFODOL YNG NGHYMRU

Gyda'n dyhead i fod yn Genedl Un Blaned o fewn cenhedlaeth, mae Cymru yn arddangos arweinyddiaeth rhyngwladol fawr o ran datblygu cynaliadwy. Ond, er mwyn cyrraedd ffyrdd o fyw Un Blaned, bydd angen newid ar draws llawer o sectorau: ynni, trafnidiaeth, bwyd, dŵr, bioamrywiaeth, arloesi a busnes, i enwi ond ychydig. Mae'r polisi cynllunio Datblygiad Un Blaned (DUB), a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2010, yn cynnig cyfle i arloeswyr fyw'n gynaliadwy, ond byddai'n gyfle a wastraffwyd pe na byddai'r gwersi a ddysgwyd, a'r arfer gorau ar gael i eraill. Felly, mae'n bleser mawr gen i groesawu'r adolygiad hwn a luniwyd gan y Cyngor Un Blaned, yn dangos y cynnydd mawr sydd wedi'i wneud hyd yn hyn gan ymarferwyr DUB. Mae'r argymhellion, o ran chwalu'r rhwystrau pellach a gwella'r niferoedd sy'n manteisio ar y polisi, yn arbennig o amserol o gofio'r ffocws presennol ar fynd i'r afael â newid hinsawdd a darganfod llwybrau at "Sero Net", tra'n blaenoriaethu llesiant cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Felly, yr wyf yn falch o weld y pwyslais a roddir ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, rhan allweddol o gynaliadwyedd, a phwysigrwydd arloesi a dysgu-drwy-wneud. Mae yma wersi i'w dysgu sy'n berthnasol yn llawer ehangach na'r nifer fechan o aelwydydd DUB. Bydd cefnogi egwyddorion Datblygiad Un Blaned, fel polisi cynllunio ac egwyddor ehangach datblygu cynaliadwy, yn ein helpu i adeiladu Cymru fywiog, ffyniannus a gwydn, yn meddu ar ôl-troed ecolegol sy'n gyfrifol yn fyd-eang.





SOPHIE HOWE

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

Medi 2022

Comisiynydd **Cenedlaethau'r Dyfodol** Cymru

**Future Generations** Commissioner for Wales

# **CYFLWYNIAD O'R** CYNGOR UN BLANED

Yr ydym yn ysgrifennu'r adolygiad hwn er mwyn cyflwyno crynodeb o'r dystiolaeth a'r data a gynhyrchwyd gan Ddatblygiad Un Blaned (DUB) yng Nghymru ers cyflwyno'r polisi yn 2010. Ein gobaith yw y bydd casglu'r wybodaeth at ei gilydd yn helpu esbonio'r ffyrdd y gall DUB gyfrannu at amcanion cenedlaethol Cymru, a'r ffordd y gellid ei helpu i wneud hynny yn fwy effeithlon yn y dyfodol. Hyd yn hyn, mae unrhyw drafodaeth ynghylch DUB wedi'i rhwystro gan ddiffyg tystiolaeth, ar wahan i dystiolaeth anecdotaidd. Nid yw hyn yn syndod, gan ei fod yn cymryd pum mlynedd i sefydlu safle Datblygiad Un Blaned, ac ychydig yn unig o geisiadau sydd wedi bod; dim ond nawr y mae gennym ddigon o dystiolaeth i ddod i gasgliadau ehangach.

Roedd y Cyngor Un Blaned wedi penderfynu cynnal arolwg o'r data meintiol ac ansoddol, a gasglwyd o adroddiadau blynyddol Datblygiadau Un Blaned ac holiadur. Cafwyd ymateb o 95% i'n harolwg. Felly, 'roeddwn yn gallu pwyso a mesur y sefyllfa wedi 10 mlynedd, ac adrodd y stori hon gan ddefnyddio data rhifol a ffotograffig, ynghyd â thystiolaeth ansoddol. Yr ydym am amlygu llwyddiannau'r polisi cyfredol a, drwy ystyried y data, y ffordd y gallai'r polisi gael ei wella ar gyfer y DUBau presennol a darpar ymgeiswyr y dyfodol fel ei gilydd.

Nodwn, yn arbennig, bod ond ychydig o geisiadau wedi'u cyflwyno ond bod y cyfradd llwyddiant yn uchel. Mae hyn yn adlewyrchu'r rhwystrau mawr i fynediad a'r ymrwymiad personol anferth sydd ei angen i lunio Cynllun Rheoli DUB; mae hyn yn arwain at gyfradd uchel o lwyddiant DUB oherwydd dim ond y rhai mwyaf abl ac ymrwymedig, y mwyaf breintiedig, sy'n cyrraedd y llinell ddechrau. Mae ein hargymhellion allweddol, lle y gwelwn gyfleoedd i wella'r polisi, wedi'u llunio o gwmpas pwysigrwydd Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant a chyflawni amcanion llesiant y Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol (2015).

Mae'r canlyniadau a gynhwysir yn y ddogfen hon yn galonogol a thrawiadol. Mae preswylwyr DUB yn dangos ei bod yn bosibl nid yn unig i fyw, ond i ffynnu yn y wlad hon, tra'n cadw at ffordd o fyw gynaliadwy iawn, gydag ôl-troed ecolegol isel. Ond mae'r canlyniadau hefyd yn amlygu'r camgymhariad rhwng y polisi hwn a system gynllunio sy'n seiliedig ar leihau niwed, yn hytrach na gwneud y gorau o'r manteision. Yn dilyn cyflwyniad ein tystiolaeth, yr ydym yn cynnig casgliad o'n hargymhellion sy'n codi o brofiad cyfunol preswylwyr DUB, ymgeiswyr, swyddogion cynllunio a gorfodi, academyddion, cymunedau, arolygwyr cynllunio ac ymgynghorwyr annibynnol; credwn y bydd rhain yn gallu gwella'r broses yn sylweddol a gosod y polisi Datblygiad Un Blaned ar lwybr cynaliadwy ar gyfer y ddegawd nesaf.

CYNGOR UN BLANED
Cefnogi Datblygiadau Un Blaned

ONE PLANET COUNCIL
Supporting One Planet Developments

# **BETH YW** DATBLYGIAD UN BLANED?



*Cyflwyniad i gyd-destun, egwyddorion a gofynion polisi cynllunio Datblygiad Un Blaned.*

# BETH YW DATBLYGIAD UN BLANED?

1

## 1.1 CYD-DESTUN Y POLISI DUB

Mae gan Gymru hanes hir o arwain yn amgylcheddol. Fel rhan o ddatganoli grymoedd o San Staffan i'r Senedd, roedd Deddf Llywodraeth Cymru (2006) yn cynnnwys ymrwymiad statudol i lunio cynllun datblygu cynaliadwy, cynlllun a gyhoeddwyd ym Mai 2009 o dan y teitl "Un Cymru: Un Blaned". Roedd y cynllun hwnnw wedi adnabod Ôl-troed Ecolegol fel metrig cynaliadwyedd amgylcheddol allweddol, ac yn cynnwys y nod o "ddefnyddio ond ein siar teg o adnoddau'r ddaear, a bod yn genedl Un Blaned o fewn un cenhedlaeth". Byddai hyn yn golygu gostwng yr Ôl-troed Ecolegol cyfartalog o 5.16 hectar byd-eang y person yn 2003 i 1.88 hectar byd-eang erbyn 2050, ochr yn ochr ag ymdrechion i leihau gwastraff, teithio llesol, adfywio economaidd, cynhyrchu bwyd yn lleol, tai o ansawdd uchel, ynni adnewyddadwy a dinasyddiaeth.

Er mwyn cyflawni'r targed uchegeisiol hwn, roedd hi'n glir y byddai angen esiamplau i ddangos y ffordd tuag at fywyd Un Blaned, ac y byddai polisi cynllunio yn ffordd o annog y fath esiamplau, yn enwedig mewn cyd-destun gwledig. Yn dilyn menter gynllunio leol (Datblygiad Bach ei Effaith yn gwneud Cyfraniad Positif, Cynllun Datblygu Unedol Ar y Cyd Sir Benfro 2006 a Chanllawiau Cynllunio Atodol dilynol), cyflwynwyd y polisi Datblygiad Un Blaned gan Lywodraeth Cymru drwy gyhoeddi cyngor cynllunio yn Nodyn Cyngor Technegol 6 - Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy (2010), sy'n nodi gofynion sylfaenol DUB. Gan dynnu ar brofiad aelwydydd a chymunedau bach eu heffaith yng Nghymru a thu hwnt, comisiynwyd dogfen Canllaw Ymarfer (Arweiniad Ymarferol Datblygiadau Un Blaned, 2012) i restru nodweddion a meini prawf hanfodol DUB ar gyfer ceisiadau am ganiatâd cynllunio ac asesu.

Ers 2010, mae ychydig ddwsinau o geisiadau cynllunio DUB wedi'u cyflwyno, gyda'r mwyafrif ohonynt yn ne-orllewin Cymru. Mae'r tudalennau dilynol yn arolygu'r dystiolaeth o'r datblygiadau hynny; maen nhw wedi cynhyrchu cyfoeth o ddata a thystiolaeth sy'n amlygu'r cyfleoedd anferthol sydd ar gael, ynghyd â rhai o'r heriau ehangach i ddatblygu cynaliadwy yng Nghymru.

Er nad yw'r polisi DUB wedi newid ers 2012, mae'r cyd-destun wedi symud ymlaen. Roedd cyhoeddi'r "Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol" yn 2015 yn cynnwys ôl-troed ecolegol byd-eang fel dangosydd allweddol o lesiant cenedlaethol, ochr yn ochr â llawer o ddangosyddion amgylcheddol a chymdeithasol eraill sy'n berthnasol i feini prawf hanfodol eraill Datblygiad Un Blaned, gan gynnwys bwyd, ynni, bioamrywiaeth ac ecosystemau iachus. Yn Ebrill 2019, Cymru oedd y wlad gyntaf yn y byd i ddatgan argyfwng hinsawdd. Mae datblygu cynaliadwy yn allweddol wrth leihau ein hallyriadau carbon a'r bygythiad sy'n codi o newid hinsawdd a thywydd eithafol. Ac, yn 2021, gyda'r ymrwymiad at gyrraedd allyriadau "Sero Net" erbyn 2050, a chymryd cyngor o ran ymestyn yr uchelgais at 2035, mae Cymru yn parhau i arddangos arweinyddiaeth amgylcheddol.

Mae'r pandemig Covid-19, a parhau i addasu at effaith y penderfyniad Brexit, yn enwedig yr ansicrwydd ynghylch dyfodol bwyd a ffermio, hefyd wedi dod â blaenoriaethau cenedlaethol i ffocws. Yn gysylltiedig â'r materion hyn, mae hefyd y broblem barhaol o argaeledd tai ar gyfer pobl ifanc, yn enwedig mewn ardaloedd mwy gwledig. Mae cynaliadwyedd cymunedau gwledig yn gofyn bod yno gyfleoedd fforddiadwy i fyw, gweithio a magu teulu. Mae'r cynnydd mewn prisiau tai, tai gwyliau ac ail gartrefi yn niweidiol i hyfywedd ysgolion a thafarndai pentref, yr iaith Gymraeg a threftadaeth ddiwylliannol ein cefn gwlad.

Ar raddfa fechan mae Datblygiadau Un Blaned yn ficrocosm o'r math o gynaliadwyedd amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol yr ydym am weld yn digwydd yn ehangach. Drwy gynllunio gofalus, gall y datblygiadau hyn ddangos ein bod nid yn unig am gael "effaith fach" ar yr amgylchedd ond am gael effaith bositif ar ein cymdogion cymdeithasol ac ecolegol ar draws ystod o fetrigau a dangosyddion.

## 1.2 GOFYNION Y POLISI DUB

- **Ôl-troed Ecolegol Un Blaned**
  Rhaid bod gan Ddatblygiad Un Blaned sefydlog ôl-troed o 2.4 hectar byd-eang y person, a bod ar y ffordd i ostwng hwn ymhellach i tua 1.88 hectar byd-eang y person.

- Effaith bositif **ar fioamrywiaeth a chynefinoedd**
  Mae Datblygiadau Un Blaned wedi'u hymrwymo at gadw a gwella nodweddion ecolegol pwysig sydd eisoes yn bodoli ar y safle, a chreu cynefinoedd newydd er mwyn cael effaith bositif ar fioamrywiaeth leol.

- **O ran eu hadeiladedd a'u defnydd**, rhaid i adeiladau fod yn **Sero Carbon**
  Er nad oes, ar hyn o bryd, ddiffiniad o "Sero Carbon" yn bodoli, rhaid i adeiladau DUB fod yn gynaliadwy o ran eu deunyddiau a dulliau adeiladu ac yn nhermau perfformiad parhaus yr adeilad, a'i ddefnydd ynni.

- **Menter ar y tir**
  Unwaith ei fod yn sefydlog, rhaid i Ddatblygiad Un Blaned gynhyrchu incwm arian bychan drwy werthu cynnyrch sy'n deillio o 'r tir (a dyfwyd neu a gynhyrchwyd ar y safle).

- Cynhyrchu **bwyd**
  Rhaid i Ddatblygiad Un Blaned gynhyrchu o leiaf 30% o'i fwyd ar y safle.

- Defnyddio **ynni adnewyddadwy**
  Rhaid i Ddatblygiadau Un Blaned ddefnyddio ynni sy'n deillio, yn bennaf, o ffynonellau adnewyddadwy ar y safle ar gyfer trydan, gwresogi, coginio a dŵr twym.

- Ymgysylltiad positif gyda'r **gymuned** leol

- Defnyddio **trafnidiaeth carbon isel**

- **Ailgylchu a chompostio** deunyddiau organig

- **Cynaeafu dŵr ar y safle**

- Rhaid taw **unig dŷ** y deiliaid yw'r tŷ

- **Adrodd**, yn flynyddol, ynghylch cynnydd



2

# **TYSTIOLAETH LLWYDDIANT:** DATBLYGIADAU UN BLANED 2010-2021

*Arolwg o'r dystiolaeth o'r safleoedd Datblygiad Un Blaned a ganiatawyd yng Nghymru, a'r ffordd y maen nhw'n cwrdd â gofynion y polisi.*

# TYSTIOLAETH LLWYDDIANT: DATBLYGIADAU UN BLANED 2010-2021

2

*Mae'r adran hon yn adolygu'r dystiolaeth a gasglwyd mewn arolwg gan y Cyngor Un Blaned yn ystod Tachwedd-Rhagfyr 2021. Arolygwyd cyfanswm o 38 aelwyd, yn cynrychioli'r holl aelwydydd sydd, hyd y gwyddwn ni, wedi derbyn caniatâd cynllunio llawn am DUB hyd at Dachwedd 2021, ac 'roeddwn wedi derbyn ymateb oddiwrth 36 o'r rheiny (95%). Yr oeddent wedi darparu data meintiol ac ansoddol a dynnwyd o adroddiadau blynyddol, ac wedi ateb cyfres o gwestiynau ynghylch eu profiadau. Roedd yr holl gwestiynau yn ddewisol ond roedd mwyafrif yr ymatebwyr wedi ateb pob cwestiwn*

*Er mwyn gwarchod preifatrwydd aelwydydd unigol, mae'r canlynadau isod wedi'u cyflwyno ar ffurf fformatau cyfanredol neu ddi-enw. Yn arbennig, oherwydd y niferoedd bychain, nid ydym am adnabod unrhyw DUB yn ôl ei ardal awdurdod lleol.*




## 2.1 SAFLEOEDD A PHRESWYLWYR DUB

Rhestrir yr ymatebion i'n harolwg yn Ffigwr 2.1, yn ôl y flwyddyn DUB. I'r mwyafrif, mae'r flwyddyn DUB yn cyfateb i'r nifer o flynyddoedd ers i ganiatâd cynllunio gael ei ganiatáu. Mewn nifer fechan o achosion, efallai eu bod naill ai wedi cychwyn datblygu mwy na blwyddyn wedi iddynt dderbyn caniatâd, neu wedi cyflwyno cais ôl-weithredol, yn rhannol neu'n gyfangwbl. Yn yr achosion hynny nid yw'r flwyddyn DUB yn cyfateb i'r nifer o flynyddoedd sydd wedi mynd heibio ers y roddwyd y caniatâd. Mae 11 aelwyd ym "Mlwyddyn 0", aelwydydd nad ydynt hyd yn hyn wedi cyflwyno adroddiad blynyddol.

Dim ond 6 o'r ymatebion sy'n dod o DUBau sydd ym Mlwyddyn 5 neu thu hwnt. Ceir myfyrdod pellach ar brofiad y preswylwyr hyn yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

**FFIGWR 2.1** CRYNODEB O'R YMATEBION I'R AROLWG, YN DANGOS BLWYDDYN DATBLYGU




*Ffigwr 2.1: Ymatebion yr arolwg yn ôl blwyddyn DUB. Mae'r nifer isel o DUBau ym "Mlwyddyn 1" oherwydd yr oedi wrth wneud penderfyniadau cynllunio neu ddechrau'r prosiect yn ystod y pandemig Covid. Cyfanswm o 36 ymateb.*


Yn sgil cyflwyno'r polisi, mae'r data yn dangos bod cynnydd graddol blynyddol yn y nifer o aelwydydd sy'n derbyn caniatâd i ddechrau eu DUB (gyda'r eithriad diweddar o saib mewn cymeradwyo yn ystod y pandemig Covid). Serch hynny, **er bod cynnydd blynyddol yn y nifer o ymgeiswyr llwyddiannus, mae'r niferoedd yn dal yn gymharol isel, gyda chyfanswm o 38 DUB wedi derbyn caniatâd mewn ychydig dros 10 mlynedd.**

**Mae Datblygiadau Un Blaned wedi'u gwasgaru ar draws Cymru, ond mae'r mwyafrif llethol ohonynt wedi'u lleoli yn y De Orllewin (Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin)** (Ffigwr 2.2). Efallai bod sawl rheswm dros hyn:

- **Y ddarpariaeth hanesyddol "Polisi 52" am Ddatblygiad Bach ei Effaith yng Nghynllun Datblygu Lleol Sir Benfro, a gyflwynwyd yn 2006, sy'n golygu bod gan ymgeiswyr DUB ac adrannau cynllunio fodel i'w ddilyn.**
- **Bod ymgeiswyr newydd yn dewis bod yn agos at DUBau eraill, am gymuned, rhannu cyfleoedd ac arbedion maint.**
- **Argaeledd tir mewn parseli bach.**
- **Pris tir.**



## FFIGWR 2.2 NIFER Y DUBAU FESUL AWDURDOD CYNLLUNIO LLEOL (ACLL)




*Ffigwr 2.2: Nifer y DUBau sydd wedi derbyn caniatâd yn ardal pob cyngor hyd at Dachwedd 2021. Cyfanswm o 38. (Noder bod y rhif hwn yn cynnwys y ddau nad oeddent wedi ymateb i'n harolwg). Ceir manylion pellach yn y drafodaeth Rheoli Datblygiad, Adran 3.1.*

## *"Mae Datblygiadau Un Blaned yn addas iawn i'w hystyried o fewn ffiniau Parciau Cenedlaethol"*

Ar raddfa llai, mae'n debyg bod clwstwr o DUBau o gwmpas pentrefi neu wardiau cyngor penodol, er enghraifft yn Llangolman (Sir Benfro) lle y mae aelwyd ffermio sy'n ymddeol wedi gwerthu tir yn fwriadol er mwyn hyrwyddo sawl DUB newydd. Byddwn yn archwilio dosbarthiad daearyddol ceisiadau DUB ymhellach yn ein trafodaeth ynghylch rheoli datblygiad (Adran 3, isod).


Mae Datblygiadau Un Blaned yn addas iawn i'w hystyried o fewn ffiniau Parciau Cenedlaethol, er eu bod, hyd yn hyn, ond wedi cyrraedd Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Wrth natur a dyluniad, gall DUBau sy'n ymateb yn briodol i anghenion lleoliad penodol helpu cadw a gwella prydferthwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol y Parciau Cenedlaethol, ac hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau eu nodweddion arbennig. Mae hyn hefyd yn berthnasol mewn Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol megis Gwyr. Mae un DUB hyd yn oed wedi'i leoli ar Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, ac wedi cydweithio gyda'r awdurdodau perthnasol i ddatblygu cynllun cadwraeth ar gyfer cynefin glöyn byw Brith y Gors ar y safle.

Mae'r garfan bresennol o DUBau llwyddiannus yn amrywio mewn maint, o tua dwy erw hyd at dros 35 erw, a dangosir eu dosbarthiad yn Ffigwr 2.3. Mae tua dwy rhan o dair o'r safleoedd o dan deg erw mewn maint. Mae'n debyg bod llawer o ffactorau yn pennu maint llain DUB, gan gynnwys:

- y cyfyngiadau ariannol ar ymgeiswyr wrth brynu tir;
- argaeledd tir mewn parseli maint addas; a
- chyfngiadau ymarferol yn gysylltiedig â'r fenter ar y tir a'r gallu i reoli'r safle mewn modd effeithiol.

Gallwn ddweud bod **DUBau yn cynnal gweithgareddau ar y tir sydd yn llawer mwy dwys nag yw amaethyddiaeth confensiynol** yn yr un ardaloedd, gan ddefnyddio mwy o fewnbwn llafur mewn ardal llai o faint i gynhyrchu incwm o'r tir, ac felly'n cynnal mwy o swyddi yr erw.


**FFIGWR 2.3** MAINT DUBAU (ERWAU)




*Figwr 2.3: Ymatebion i'r arolwg yn ôl ardal y safle (erwau). Cyfanswm o 36 ymateb.*

Dangosir y nifer o breswylwyr sy'n byw ar bob llain DUB yn Ffigwr 2.4. Mae'r mwyafrif ohonynt yn aelwydydd dau-oedolyn, ac mae dros hanner o'r rhain yn magu plant ar y safle. Mae ein data isod hefyd yn ystyried y defnydd o ysgolion lleol a lleoliadau addysg cyfrwng Cymraeg, ac mae hefyd yn werth pwysleisio bod pob un o'r aelwydydd hyn yn weithredol yn economaidd, gyda llawer ohonynt yn cynnal swydd arall, yn ogystal â busnes ar y tir. Felly, yn nhermau'r heriau demograffig sy'n bodoli yng Nghymru wledig, mae **DUB yn rym economaidd a chymdeithasol positif sy'n cynnig cyfleodd i bobl ifancach a theuluoedd ifanc fyw a gweithio yng nghefn gwlad.**

## FFIGWR 2.4 NIFER CYFREDOL O OEDOLION A PHLANT SY'N BYW AR SAFLEOEDD DUB




*Ffigwr 2.4: Nifer o breswylwyr (chwith: oedolion, de: plant). Cyfanswm o 36 ymateb.total.*

Er bod llawer o DUBau yn cynnwys parau neu deuluoedd, mae'r polisi yn weddol hygyrch i aelwydydd sy'n cynnwys pobl sengl neu hŷn. Erbyn hyn, mae sawl aelwyd DUB un-oedolyn yn llwyddo i ddiwallu'r gofynion, a rhai gyda phreswylwyr sydd dros 65 oed. Ond, serch hynny, mae'r gofynion corfforol o dyfu bwyd a gwneud bywoliaeth o'r tir yn golygu bod rhwystrau mawr yn wynebu pobl anabl. Mae goblygiadau'r polisi Datblygiad Un Blaned o ran Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (CAC) yn cael eu trafod mewn mwy o fanylder isod (Adran 4).



## 2.2 ÔL-TROED ECOLEGOL

Yr Ôl-troed Ecolegol yw'r ffactor cynaliadwyedd allweddol ar gyfer DUB, yn mesur ôl-troed byd-eang y datblygiad. Mae'r ôl-troed byd-eang yn ddangosydd cynaliadwyedd allweddol, a'r 14eg Dangosydd Llesiant Cenedlaethol a ddiffinir gan y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015). Ôl-troed Ecolegol "Un Blaned" yw'r lefel y dylem fod yn glynu ato pe byddem yn "defnyddio'n siar teg o adnoddau'r Ddaear"; diffinir hyn fel 1.88 hectar byd-eang (gha). Yn 2011 amcangyfrifwyd bod ôl-troed Cymru, ar gyfartaledd, yn 3.28 gha y person. Maen prawf hanfodol DUB yw cyrraedd Ôl-troed Ecolegol o 2.4gha y person ar y cychwyn, ai ostwng i 1.88gha dros gyfnod o amser, sef ôl-troed llawer is na'r cyfartaledd.

Mae Ffigwr 2.5 yn dangos y ffigurau Ôl-troed Ecolegol a gyflanwyd gan DUBau, yn ôl blwyddyn DUB. Mae angen adrodd yn ôl ynghylch olion troed ym Mlwyddyn 3 a Blwyddyn 5. Mewn achosion lle y mae DUBau wedi cadw cofnodion ychwanegol, yr ydym wedi ychwanegu esiamplau pellach at y data a gofnodwyd.


Mae'r mwyafrif o DUBau yn cyrraedd lefel Ôl-troed Ecolegol "Un Blaned" ymhell cyn dyddiad adrodd yn ôl Blwyddyn 5. Er bod y data yn rhy brin i ddod i gasgliadau pellach, efallai bod y duedd gyffredinol tuag at leihau olion troed dros gyfnod o amser oherwydd y cynnydd yn y bwyd a gynhyrchir ar y safle, a'r lleihad mewn trafnidiaeth oddiar y safle; yr ydym yn trafod y ddau beth isod.

GOFYN DUB (2.4gha)

*"Mae'r mwyafrif o DUBau yn cyrraedd lefel Ôl-troed Ecolegol "Un Blaned" ymhell cyn dyddiad adrodd yn ôl Blwyddyn 5."*

***"Mae'r ôl-troed byd-eang yn ddangosydd cynaliadwyedd allweddol, a'r 14eg Dangosydd Llesiant Cenedlaethol a ddiffinir gan y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015)."***

**FFIGWR 2.5** ÔL-TROED ECOLEGOL FESUL BLWYDDYN DUB




*Ffigwr 2.5: Yr Olion Troed Ecolegol a gyflawnwyd gan Ddatblygiadau Un Blaned dros gyfnod o amser. (Data cyfartalog Cymreig o adroddiad ar Ôl-troed Ecolegol a Charbon Cymru/The Ecological and Carbon Footprint of Wales, Stockholm Environment Institute, 2015).*



Yn anffodus, nid oes unrhyw ddata ar gael wedi 2011 ynghylch ôl-troed cenedlaethol Cymru, er gwaethaf ei statws fel Dangosydd Llesiant Cenedlaethol. Yr ydym yn argymell y dylid llunio cynllun i ddiweddaru'r amcangyfrif ôl-troed cenedlaethol yn y bum mlynedd nesaf, er mwyn ystyried amgylchiadau cenedlaethol a rhyngwladoln ewidiol. Mae'r gallu i bennu effaith ecolegol a chynaliadwyedd gwahanol ddewisiadau o'r pwys mwyaf, ac mae bodolaeth sylfaen ymchwil arwyddocaol fel sail i'r ôl-troed ecolegol yn ei wneud yn ddangosydd addas a thrwyadl.

***"Os yw Cymru i fod yn Genedl Un Blaned yna rhaid i'r holl ddatblygu newydd fod yn Ddatblygiad Un Blaned."***

Os yw Cymru i fod yn Genedl Un Blaned yna rhaid i'r holl ddatblygu newydd fod yn Ddatblygiad Un Blaned. Mae llawer gwahanol agwedd i'r Ôl-troed Ecolegol ac nid yw'n mynnu bod pawb yn byw yn yr un ffordd, ond mae yn gofyn bod dewisiadau cenedlaethol yn gwneud hi'n haws i unigolion ddewis ffordd o fyw Un Blaned yn eu cyd-destun eu hunain, p'un ai bo hynny'n wledig neu drefol. Gan ystyried elfennau mwyaf olion troed ecolegol unigolion, mae hyn yn cynnwys ffyrdd newydd o fyw gyda llai o ynni ac adnoddau, trafnidiaeth gyhoeddus ac adnoddau ar gyfer teithio llesol, cymell argaeledd bwyd lleol a rheoliadau i hyrwyddo adeiladau o ansawdd uchel. Mae profiadau DUB yn amlygu'r heriau a'r cyfleoedd o symud tuag at ffordd o fyw Un Blaned.

## CIPLUN BYWYD GYDAG ÔL-TROED UN BLANED

*"Rydym wedi bod yn byw bywyd Un Blaned am bron bum mlynedd ac yn meddu ar ôl-troed ecolegol isel dros ben. Roedd ein teulu wedi rhoi'r gorau i fyw yn y dddinas ac wedi dychwelyd at wreiddiau fy nheulu yn Sir Benfro am fywyd sy'n cydweddu'n well, yn foesol ac yn foesegol, gydag adnoddau'r ddaear. 'Rydym bron wedi rhoi'r gorau i deithio yn y car, yn defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, yn tyfu ein bwyd ein hunain ac yn prynu eitemau ychwanegol yn lleol. Mae ein tŷ 100% oddiar y grid ac, o ystyried yr 'argyfwng costau byw' dyma'r ffordd ymlaen.*

*Ers bod yn fwy lleol, 'rydym yn teimlo llawer mwy o gysylltiad â'r gymuned leol. 'Roeddwn yn hapus iawn i aberthu teclynnau megis ffwrn meicrodon, sychwyr gwallt a'r peiriannau coffi diweddaraf i fyw gydag ôl-troed un blaned, gan ein bod yn credu mewn byw yn gynaliadwy er budd cenedlaethau'r dyfodol. Serch hynny, nid yw hyn yn golygu nad ydym yn byw bywyd cysurus. Dylid annog pawb i greu cartrefi cynaliadwy, p'un ai yn y wlad neu yn y ddinas."*

**Suzanne Pearton-Scale, DUB Willow Farm, Dinbych y Pysgod**





*Llun gan Mania Naimen*


## 2.3 CYNHYRCHIANT: BWYD

Disgwylir i ddatblygiadau Un Blaned gynhyrchu o leiaf 30% o'u bwyd ar y safle. Rhaid cynhyrchu 35% ychwanegol naill ai ar y safle, neu ei brynu gan ddefnyddio incwm o'r tir (h.y. os nad yw'n cael ei gynhyrchu ar y safle mae'n cynyddu'r incwm y mae'n rhaid i'r fenter wneud o'r tir). Gall y 35% sy'n weddill gael ei dyfu ar y safle neu ei brynu gan ddefnyddio urhyw ffynhonnell incwm.

Yn ymarferol, yr ydym yn gweld bod y mwyafrif o aelwydydd DUB yn mynd ymhell y tu hwnt i'r isafswm gofyn o ran tyfu bwyd.



### FFIGWR 2.6 CYFRAN Y BWYD A DYFIR AR Y SAFLE




*Ffigwr 2.6: Canran y bwyd a dyfwyd ar y safle, fesul blwyddyn DUB. Mae safleoedd DUB yn cychwyn gweithgareddau tyfu bwyd sylweddol yn fuan iawn wedi iddynt ddechrau datblygu, ac yn mynd ymhell y tu hwnt i'r isafswm gofyn. O Flwyddyn 5 ymlaen rhaid tyfu o leiaf 30% o'r bwyd ar y safle. Cyfanswm o 36 ymateb.*

Mae Ffigwr 2.6 yn dangos y canran o fwyd a dyfir ar y safle, gan ddangos bod aelwydydd DUB, yn ystod y bum mlynedd gyntaf, yn dechrau cynhyrchu meintiau sylweddol o fwyd, a hynny yn gyflym.

Mae hyn yn golygu cyfraniad sylweddol at gostau byw yr aelwyd, gan gynyddu gwytnwch yn wyneb costau byw uwch. O'r 16 aelwyd sydd wedi cyrraedd Blwyddyn 3 DUB neu fwy mae gwerth y bwyd a gynhyrchir ar y safle, ar gyfartaledd, yn £3,030. Cyfanswm gwerth y bwyd a dyfwyd ar y safle gan bob un o'r 36 aelwyd DUB a arolygwyd oedd £67,200, gan gynnwys rhai nad oeddent eto wedi dechrau ar eu datblygiad.

***"Y mwyafrif o aelwydydd DUB yn mynd ymhell y tu hwnt i'r isafswm gofyn o ran tyfu bwyd."***



*Llun gan Mania Naimen*

**CIPLUN** TYFU BWYD

*"Fel aelwyd ar dyddyn yr ydym yn diwallu 65-70% o'n hanghenion bwyd ar y safle, drwy ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau; gerddi llysiau traddodiadol, gerddi coedwig sy'n cael eu trin mewn amrywiol ffyrdd, perllannau y porir odditanynt a thaenfeydd a wrth-heintiwyd â ffwng. Mae meithrin ac addasu'r systemau hyn wedi dod yn rhan annatod o'n bywydau.*

*Mae ffynnu ar ddeiet a ddaw o'r tir yn golygu addasu eich ffordd o fyw yn ôl tymor y flwyddyn. Mae'r Gwanwyn yn gyfnod o fwyta salad ffres sy'n rhoi egni ichi, a phlannu cnydau; mae'r Haf yn gyfnod sy'n gweld digonedd o fwyd – ond yr ydym eisoes yn ystyried storio peth ohono ar gyfer y gaeaf; adeg y cynhaef yw'r Hydref, ac yr ydym yn dechrau paratoi'r tir at dywydd y gaeaf; yn y Gaeaf cawn beth amser i ymlacio ac i fwyta peth o'r bwyd a storiwyd – cig, gwreiddlysiau a phicls.*

*I gadw'n deiet yn amrywiol ac iachus yr ydym yn arbrofi gydag ystod o gynnyrch; potes esgyrn, egin cwinoa, miso ffa, cawl llaeth dafad, pâté cnau castan a madarch cap gwin, yn ogystal â phrif gynnyrch arferol megis cig oen a thatws."*

**Caz Wyatt, DUB Gelli y Gafel, Glandwr**



## 2.4 CYNHYRCHIANT: MENTRAU AR Y TIR


Mae gofynion DUB yn mynnu bod y fenter ar y tir yn darparu holl "Isafswm Anghenion" y preswylwyr, pan y diffinir Isafswm Anghenion fel cyfanswm y gwariant ar dreth y cyngor, dillad, TG a thelegyfathrebu, trafnidiaeth a gwariant ychwanegol y preswylwyr ar fwyd. O'r 27 aelwyd a oedd wedi cyflwyno eu ffigyrau Isafswm Anghenion, £5,164 oedd cyfartaledd y cyfanswm, yn amrywio rhwng £2,568 (aelwyd un-person) a £12,800 (aelwyd pedwar person). Y prif gyfranwyr at y gwahaniaethau mewn Isafswm Anghenion rhwng DUBau yw maint yr aelwyd, cludiant personol a'r maint o fwyd a dyfir ar y safle. Ar unrhyw safle penodol, mae'r Isafswm Anghenion yn tueddu i ostwng ychydig dros amser fel bod mwy o fwyd yn cael ei dyfu a bod teithio oddiar y safle yn lleihau.

Yn hytrach na chofnodi lefelau incwm absoliwt o'r tir, er cyfrinachedd, roeddwn wedi holi ynghylch y gofynion DUB: sef cyfran yr Isafswm Anghenion a ddiwallwyd gan incwm o'r tir yn y flwyddyn gofnodi mwyaf diweddar. Dangosir hyn yn Ffigwr 2.7. Yr ydym yn gweld bod llawer o DUBau eisoes yn diwallu'r angen i gwrdd â'u Hisafswm Anghenhion, gan ddefnyddio incwm o'r tir, ymhell cyn Blwyddyn 5.



***"Llawer o DUBau eisoes yn diwallu'r angen i gwrdd â'u Hisafswm Anghenhion, gan ddefnyddio incwm o'r tir, ymhell cyn Blwyddyn 5."***


**FFIGWR 2.7** CANRAN YR ISAFSWM ANGHENION A DDIWALLIR GYDAG INCWM O'R TIR




*Ffigwr 2.7: Canran yr Isafswm Anghenion a ddiwallir gydag incwm o'r tir, fesul blwyddyn DUB. Mae safleoedd DUB yn dechrau gwneud incwm sylweddol o'r tir yn gyflym iawn wedi iddynt ddechrau datblygu. Y gofyn yn Blwyddyn 5 yw bod 100% o'r Isafswm Anghenion yn cael eu diwallu gydag incwm o'r tir. Cyfanswm o 36 ymateb.*

Tra bod Meini Prawf Hanfodol DUB yn cynnwys yr angen i gwrdd â lefel penodol o incwm o'r tir, **mae tua hanner DUBau yn anelu at fynd yn sylweddol bellach na'r gofyn hanfodol ac yn cynnal yr aelwyd yn gyfangwbl gyda'r incwm o'r tir.** (Ffigwr 2.8).

## FFIGWR 2.8 UCHELGEISIAU MENTRAU AR Y TIR DUB




*Ffigwr 2.8: Cyfran yr ymatebwyr a oedd yn dweud eu bod yn bwriadu cwrdd â, neu ragori ar, y gofyn am incwm o'r tir. Cyfanswm o 36 ymateb.*

## CIPLUN MENTER UN BLANED

*"Mae Parc y Dderwen yn fferm 12 erw nad yw wedi'i gysylltu â'r grid trydan. Y ffocws masnachol yw gardd fasnachol hanner erw o faint nad yw'n cael ei balu i dyfu cynhwysion ar gyfer busnes sauerkraut. Sefydlwyd y busnes yn Ebrill 2018 gan ddefnyddio llysiau a brynwyd o gyfanwerthwr organig lleol, gyda'r bwriad o dyfu'r cynhwysion ar y safle ar ôl derbyn caniatâd DUB.*

*Dyfarnwyd caniatâd cynllunio ym Mai 2019. Erbyn tymor tyfu 2021/2022 roedd 70% o gynhwysion y busnes yn cael eu tyfu ar y safle. Wrth gychwyn y busnes cyn derbyn caniatâd cynllunio roedd modd profi'r model ymlaen llaw, drwy gyflwyno ffigyrau gwerthiant cywir i gefnogi'r cais cynllunio. Mae mwy nag 20 siop o fewn dalgylch o 30 milltir o'r safle yn cadw ein cynhyrchion.*

*Yn 2020 adeiladwyd ysgubor ffrâm pren ar gyfer cegin brosesu fel bod y cynhyrchion yn cael eu tyfu, eu gwneud a'i pacio ar y safle. Mae'r gegin yn cael ei phweru gan drydan Solar PV a'r gerddi yn cael eu dyfrhau gan ddŵrglaw o do'r ysgubor".”*

**Lauren Simpson, DUB Parc y Dderwen, Llangolman**



*Llun gan Phil Moore*

## 2.5 YNNI A DŴR

Mae DUB yn mynnu bod yr holl anghenion ynni ar gyfer pob gweithgaredd yn cael eu diwallu gan ffynonellau adnewyddawy ar y safle, gan eithrio meintiau bychain o danwydd anadnewyddadwy at ddibenion penodol, sy'n gweddu at y dasg, ac mae modd eu cyfiawnhau (megis llifau cadwyn neu goginio tymhorol).

Mae'r mwyafrif o safleoedd DUB yn defnyddio cyfuniad o ffynonellau ynni, a'r opsiynau mwyaf cyffredin, o bell ffordd, yw paneli ffotofoltaig solar (97%) a llosgi pren (97%). O'r 35 safle a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, dim ond pump (14%) oedd yn defnyddio tyrbin gwynt, dau yn defnyddio casglwr dŵr twym solar, un yn cynhyrchu trydan gan ddefnyddio ffurfiau eraill ar fiomas, a neb yn cynhyrchu trydan dŵr. Mae defnydd arbrofol yn cael ei wneud o ddatrysiadau cartref a/neu cost isel cynhyrchu ynni adnewyddadwy ac yn cael eu cyfuno â phaneli solar modern, effeithlon, a stofiau llosgi pren effeithlon iawn, ynghyd â llawer o insiwleiddiad ac effeithlonrwydd i leihau'r galw am ynni.

O'r 35 a ymatebodd, roedd 88% yn defnyddio meintiau bychain o nwy ar gyfer coginio tymhorol, ac roedd 57% yn gwneud o leiaf defnydd achlysurol o generadur petrol neu ddisel i ategu at y system fatris. Mae pedwar safle wedi'u cysylltu â'r prif grid trydan ac wedi datgan eu bod am fwydo yn ôl mwy o ynni nag y byddant yn ei ddefnyddio. Sylwer bod llawer o'r safleoedd hyn yn dal yn y "cyfnod sefydlu", a dal wrthi'n gosod systemau ynni. Mae'r Cyngor Un Blaned wedi cyhoeddi datganiad sefyllfa sy'n nodi bod dwysedd carbon trydan o'r grid wedi lleihau'n sylweddol ers pan ysgrifennwyd Canllaw Ymarfer DUB. Felly, efallai taw cysylltu â'r grid, mewn cyfuniad â dulliau adnewyddadwy ar y safle, yw'r dull mwyaf cynaliadwy o gyflenwi ynni i rai aelwydydd, gan ddibynnu ar eu lleoliad.

*"Mae'r mwyafrif o safleoedd DUB yn defnyddio cyfuniad o ffynonellau ynni, a'r opsiynau mwyaf cyffredin, o bell ffordd, yw paneli ffotofoltaig solar (97%) a llosgi pren (97%)."*





O ran dŵr, yn yr un modd, rhaid i DUBau ddarparu ar gyfer eu hanghenion dŵr o'r safle "onibai bod datrysiad amgen mwy amgylcheddol cynaliadwy ar gael". Mae DUBau yn sôn am ddefnyddio cyfuniad o gynaeafu dŵr glaw (75%), ffynonellau dŵr naturiol (39%), ffynonellau dŵr a grewyd, megis twll turio neu ffynnon (25%), a chysylltiad uniongyrchol â'r prif gyflenwad (22%). Tra bod modd darparu dŵr yfed drwy ei hidlo a'i drin, mae rhai DUBau wedi nodi eu bod wedi cysylltu â'r prif gyflenwad er mwyn sicrhau pwysedd cyson ar gyfer y system chwistrellu dŵr y gofynir amdani gan y Rheoliadau Adeiladu i ddiogelu'r tŷ annedd.

## CIPLUN BYW MEWN TŶ DI-GARBON

*"Mae gan ein tŷ Datblygiad Un Blaned fantais amlwg, sef nid oes angen talu biliau ynni gan ein bod yn cwrdd â'n holl anghenion ynni ar y safle, ac nid ydym yn defnyddio unrhyw danwydd ffosil. Mae ein holl drydan yn cael ei gynhyrchu gan baneli solar. Am tua wyth mis o'r flwyddyn mae hyn yn ddigonol ar gyfer popeth; y gegin gan gynnwys ffwrn drydan, hob anwytho, tegell, tostiwr, oergell, rhewgell ayyb, ein holl dŵr twym ynghyd â goleuo, TG ac offer trydanol. Am oddeutu pedwar mis (Tachwedd-Chwefror) nid oes, fel arfer, digon o drydan 'dros ben' i wresogi'r holl ddŵr twym sydd ei angen, felly yr ydym, yn aclysurol, yn cynnau'r stof llosgi pren. Efallai y byddwn yn gwneud hyn ond unwaith yr wythnos yn Nhachwedd, ac yn gwneud yn amlach yng nghanol y gaeaf. Mae'r stof yn twymo storfa thermol mawr heb fod angen unrhyw bwmpio. Am tua chwech wythnos yng nghanol y gaeaf ni allwn ddefnyddio trydan i hyd yn oed goginio'n reolaidd – yn enwedig gan ei bod yn dywyll fel bola buwch erbyn 5yh! Ar ddiwrnodau mwy heulog yn ystod y gaeaf byddwn yn coginio amser cinio ond, fel arall, yn defnyddio'r ffwrn sydd yn rhan o'r stof llosgi pren. Diolch i'r ffaith bod y tŷ wedi'i insiwleiddio'n dda iawn gyda más thermol mawr, ac yn gwneud defydd da o ynni haul, nid oes gwir angen cynnau'r tân er mwyn gwresogi'r gofod. Mae'r ffaith ein bod yn ei gynnau yn benodol ychydig droeon yr wythnos i dwymo'r dŵr a choginio yn cadw'r tŷ yn gyfforddus heb feddwl am y peth."*

**Chris Vernon, DUB Dan y Berllan, Llanboidy**



## 2.6 TRAFNIDIAETH

O'r 34 ymateb a dderbyniwyd i'r cwestiwn hwn (gan nodi nad yw rhai aelwydydd eto'n byw ar y safle), y nifer cyfartalog o deithiau cerbyd a wnaethpwyd, gan gynnwys teithio i'r ysgol, siopa, cynhyrchion fferm, ymweliadau cymdeithasol ayyb oedd 6.1 taith 'nôl ac ymlaen yr aelwyd yr wythnos. Er cymhariaeth, er nad oes data cyfredol ar gael ar gyfer Cymru, mae'r data Arolwg Teithio Cenedlathol ar gyfer cymunedau gwledig yn Lloegr, a gyhoeddwyd gan Adran Drafnidiaeth y DU, yn cofnodi cyfartaledd o 387 taith y person y flwyddyn (mae'r ffigyrau hyn ar gyfer 2020 yn dangos gostyngiad o'u cymharu â'r blynyddoedd blaenorol oherwydd y pandemig), neu 14.9 taith yr wythnos ar gyfer aelwyd dau-berson.

Er gwaethaf bod Datblygiadau Un Blaned yn aml wedi'u lleoli yng nghefn gwlad, a bod llawer ohonynt heb fynediad digonol at drafnidiaeth gyhoeddus, maen nhw'n arddangos effaith teithio sy'n is na'r cyfartaledd. Fel rhan o'u cynllun rheoli, mae DUBau yn cynhyrchu Cynllun Asesu Trafnidiaeth a Theithio, sydd yn aml yn cynnwys teithio llesol (cerdded neu feicio), teithio cadwyn (cyfuno teithiau, er enghraifft, siopa ar yr un pryd â'r daith i'r ysgol), rhannu ceir, neu gerbydau a bwerwyd gan ynni adnewyddadwy, megis beic trydan. Mae'r rhai hynny sy'n derbyn traffig sylweddol hefyd yn rheoli teithiau gan ymwelwyr drwy godi tâl am barcio, neu gynnig disgownt o gyrsiau i'r rhai hynny sy'n cyrraedd y safle gan ddefnyddio dulliau teithio carbon is.

Mae newidiadau ymddygiadol arloesol a rhagweithiol aelwydydd DUB yn dangos y ffordd ymlaen o ran lleihau effaith trafnidiaeth cymunedau gwledig. Cyfraniad pellach at leihau teithio yw darparu bwyd yn lleol. Mae llawer o DUBau yn gwerthu llysiau neu wyau sydd dros ben wrth y gât neu drwy drefniant, gan greu cyfle i gymdogion gwledig godi bwyd naill ai gan deithio'n llesol (cerdded neu feicio) neu ar eu ffordd adref o deithiau eraill.

*"Mae newidiadau ymddygiadol arloesol a rhagweithiol aelwydydd DUB yn dangos y ffordd ymlaen o ran lleihau effaith trafnidiaeth cymunedau gwledig."*





*Llun gan Natasha Cartwright*

***"Er gwaethaf bod Datblygiadau Un Blaned yn aml wedi'u lleoli yng nghefn gwlad, a bod llawer ohonynt heb fynediad digonol at drafnidiaeth gyhoeddus, maen nhw'n arddangos effaith teithio sy'n is na'r cyfartaledd."***

## CIPLUN LLEIHAU EFFAITH TEITHIO

*"Mae rhan fawr o'r elfen Menter ar y Tir o'n DUB ni yn cynnwys bwyd a gyrchwyd yn lleol, ac mae rhan bwysig o hyn yn cynnwys effaith teithio, sef y pellter y mae'n rhaid i'r bwyd deithio a'r pellter y mae'n rhaid i bobl deithio i'w brynu. Yr ydym yn cynhyrchu llysiau, ffrwythau a mêl, wyau, llysiau eples a blodau yn ein siop wrth y gât ac i siopau a busnesau lleol. Mae siop y gât yn profi'n boblogaidd iawn gyda phobl lleol sy'n aros i brynu cynnyrch ar eu ffordd adref o'r gwaith. Er enghraifft mae un dyn sy'n stopi'n gyson yn gweithio yn Llanfyrnach ac yn byw yn Login. Mae prynu bwyd oddiwrthon ni yn arbed taith ychwanegol i Grymych, ac mae'n cael cynnyrch sy'n fwy ffres, yn fwy blasus ac yn rhatach hefyd. 'Rydym hefyd yn cludo bwyd yn lleol ar feic i'r bobl hynny yn ein pentref nad ydynt, yn hawdd, yn gallu symud o'r tŷ.*

*Lle bo hynny'n bosibl, byddwn yn cyfuno teithiau i gludo nwyddau ymhellach gyda theithiau eraill. Er enghraifft 'rydym y cyfuno mynd â chynnyrch i siop yng Nghrymych gyda'r daith i'r ysgol, ac yn cyfuno cyflenwi blodau gyda'n taith cymudo i'r gwaith yn Nhreftraeth. Heblaw am deithio ar gyfer ein mentrau busnes, 'rydym yn ymwybodol o effaith amgylcheddol teithio yn y car, ac yn ceisio lleihau ein heffaith yn y ffyrdd canlynol:*

- *Rhannu car ar gyfer y daith i'r ysgol.*
- *Defnyddio beiciau ar gyfer teithiau lleol lle bynnag y bo hynny'n bosibl.*
- *Siopa'n lleol a chyfuno teithiau siopa gyda chymdogion a ffrindiau.*

- *Annog ymwelwyr i rannu car neu ddod ar gefn beic drwy, er enghraifft, cynnig disgownt ar deithiau tywys."*

**Brendan Powell, DUB Parc yr Odyn, Hebron**



## 2.7 BIOAMRYWIAETH AC ADFER NATUR

Gan gydnabod yr heriau y mae'r byd naturiol yn ei wynebu, yn 2021 roedd Llywodraeth Cymru wedi datgan 'argyfwng natur', ac mae hyn wedi arwain at bolisïau a deddfwriaeth newydd megis y Cynllun Gweithredu i Adfer Natur 2020-21. **Mae Datblygiadau Un Blaned yn esiamplau o'r ffordd y mae'n bosibl datblygu cynhyrchiant tir tra'n cynnal, yn weithredol, bioamrywiaeth ac adferiad natur ar, ac oddiar, y safle.** Fel rhan o'r broses ymgeisio am ganiatâd cynllunio DUB, rhaid i ddarpar ymgeiswyr gynnal asesiad ecolegol sylfaenol o'r safle, a chyflwyno Cynllun Rheoli i gadw a gwella, gyda threigl amser, y cynefinoedd a'r rhywogaethau sy'n rhan o'r safle. Yn dilyn y cyfnod cychwynnol, rhaid cynnal asesiad arall i asesu'r newidiadau ecolegol, adnabod cynnydd a'r cyfleoedd am welliannau pellach. Mae pob DUB sydd wedi cyrraedd y cyfnod ail-arolygu wedi gweld gwelliannau anhygoel yn y bioamrywiaeth a'r cynefinoedd ar y safle, ac mae'r rhai sydd mewn cyfnod cynharach hefyd yn dangos buddiannau arwyddocaol cynnar.

Mae Datblygiadau Un Blaned yn cefnogi natur a bioamrywiaeth ar y safle drwy greu cynefinoedd, gwella'r pridd, dylunio ar gyfer rhywogaethau penodol, defnyddio compostau cartref di-fawn a dulliau rheoli organig ac integredig, yn hytrach na gwrteithiau a phlaladdwyr cemegol. **Mae ystod amrywiol o gynefinoedd yn cael eu creu ar safleoedd DUB nid er gwaetha'r datblygiadau, ond er mwyn cefnogi'r ddarpariaeth o wasanaethau er budd y preswylwyr dynol:** bwyd, tanwydd gwresogi, dŵr a gwaredu gwastraff, cynhaliaeth a chartref. Mae'r esiamplau yn cynnwys:

---

- **Pyllau a chynefinoedd y gwlyptir -** Rhaid i DUBau brosesu dŵr llwyd ar y safle, yn aml gan ddefnyddio system gwely cyrs. Yn ychwanegol, mae tua hanner (52%) o'r DUBau cyfredol wedi creu pyllau newydd ar y safle neu wedi gwella ansawdd ecolegol cynefin pwll/gwlyptir a oedd eisoes yn bodoli, gyda'r sgil-fanteision yn cynnwys bod y boblogaeth o amffibiaid yn rheoli gwlithod.

- **Coedlan -** Dull traddodiadol a chynaliadwy o gynhyrchu biomas ar gyfer tanwydd, deunyddiau adeiladu neu gynnyrch arall, mae rheoli coedlan hefyd yn cael ei gydnabod yn gynefin ecolegol pwysig ar gyfer pathewod, llawer rhywogaeth o löynnod byw a gwyfynnod, blodau coetir, adar, mwsogl, cennau a ffyngau.Mae 72% o'r DUBau cyfredol wedi cynyddu'n weithredol yr ardal o goedlan ar y safle.

- **Glaswelltir -** Mae dros hanner y DUBau a arolygwyd (55%) yn cofnodi bod glaswelltir cyfoethog ei rywogaethau ar y safle, ac mae 44% yn cofnodi cynnydd yng nghyfanswm maint y cynefin hwn. O gymhariaeth, mae glaswelltir wedi'i wella (prin ei rywogaethau) wedi'i leihau ar 50% o DUBau. Mae pori mewn cylchdro, dwysedd isel yn cynnal amrywiaeth ecosystemau'r glaswelltir a llesiant yr anifeiliaid, ac ansawdd y cig yn y pen draw.

- **Ecosystemau pridd -** Mae pob DUB yn cynhyrchu compost ar y safle ac mae hyn yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd naturiol i gyflwyno maethynnau a meicrobau hanfodol i erddi cynhyrchiol, gan ddiddymu'r angen canfyddedig am wrthteithiau anorganig. (Mae'r arfer yma hefyd yn debyg o arwain at fwy o atafaelu carbon yn y pridd, er y byddai angen cynnal astudiaethau pellach i gadarnhau hyn).

- **Systemau "gerddi coedwig" lluosflwydd.** Mae 64% o DUBau yn creu ardaloedd cynhyrchu lluosflwydd, lle y mae pridd iachus, digyffwrdd yn sicrhau bod y bioamrywiaeth yn y pridd yn cynyddu, gan gynnwys yr ysglyfaethwyr sy'n bwyta plâu cyffredin.

- **Coetir llydanllail neu gymysg.** Mae 75% o DUBau wedi cynyddu'r ardal a/neu ansawdd y coed llydanddail neu gymysg ar y safle. Roedd ein harolwg wedi darganfod bod 48194 coeden wedi'i plannu ar draws 36 safle DUB hyd at dachwedd 2021, a bod y niferoedd yn dal i gynyddu. Mae'r coed a dyfir ar DUBau yn manteisio ar gynnal a chadw a rheoli parhaol gan y deiliaid sydd yn gallu trin coed ifanc mewn ffordd effeithlon, gan gynyddu cyfradd llwyddiant y plannu. Nid yw DUBau yn plannu coed i gyrraedd unrhyw darged neu dicio blwch, ond yn hytrach er mwyn darparu cynefin, bwyd, tanwydd, lloches, cysgod, deunyddiau adeiladu, adfywio'r pridd, bywiolaeth a phrydferthwch. Mae pob coeden yn ei lle am reswm; mae pob un ohonynt yn "goeden iawn yn y man cywir".

- **Cloddiau.** Mae'r rhain yn darparu cynefin a chyfleoedd chwilota i bryfed, adar a mamaliaid bychain, mannau adeiladu nyth, cysgod a choridorau hanfodol rhwng cynefinoedd rhanedig. Yn wahanol i'r duedd genedlaethol, sydd wedi gweld dirywiad mewn cloddiau dros y ganrif ddiwethaf, mae 91% o'r DUBau a arolygwyd wedi cynyddu neu wella'r cloddiau ar eu safle ac, hyd yn hyn, mae cyfanswm o 9930m o gloddiau newydd wedi'u plannu.



*Llun gan Tao Wimbush*

**Mae Datblygiadau Un Blaned yn cynnal natur a bioamrywiaeth oddiar y safle drwy ddefnyddio deunyddiau cynaliadwy mewn ffordd effeithlon a thrwy leihau'r defnydd o danwyddau ffosil, peiriannau ac aflonyddu di-angen.**

Mae sgil-effeithiau buddiol rheoli cynefin hefyd yn debygol o ymestyn y tu allan i ffiniau'r DUB. Mae'r rhain yn cynnwys atafaelu carbon mewn pridd a biomás, cyfrannau at argaeledd bwyd ar gyfer rhywogaethau sy'n crwydro ymhellach megis adar ysglyfaethus, peillio gan bryfed yn cyfrannu at ddiogelch bwyd, a rôl y DUB fel esiampl ac arloeswr yn dangos, i eraill, sut mae rheoli tir ar gyfer natur a bioaamrywiaeth.

**Mae Datblygiadau Un Blaned yn arloeswyr adfer natur.** Yn aml wedi'u lleoli ar safleoedd sydd wedi dirywio'n ecolegol, mae DUBau yn creu mosäig o gynefinoedd newydd, o well ansawdd, ar gyfer ystod o rywogaethau, ac yn gweld gwelliant mawr dros y cyfnod o bum mlynedd. Mae DUBau yn trin adeiladu pridd ac iechyd yr ecosystem mewn ffordd integredig, a hynny er budd holl aelodau'r ecosystem, gan gynnwys bodau dynol. Felly, efallai nid yw'r ffrâm amser ail-asesu ecolegol, sef pum mlynedd, yn ddigon hir i werthfawrogi a chofnodi'r gwelliannau posibl. Yr ydym yn argymell y gallai ymchwilwyr ddefnyddio DUBau yn y tymor hirach drwy gynnal arolygon ecolegol wedi'r cyfnod datblygu pum mlynedd, gan amlygu a rhannu esiamplau o arloesi ac arfer da. Byddai'r Cyngor Un Blaned yn falch iawn i gydweithio gyda grwpiau o randdeiliaid eraill er mwyn trafod a rhannu cyfraniadau DUB at adfer natur.

Fel lleiafrif bach iawn o'r defnydd tir presennol, ni all DUBau gynyddu bioamrywiaeth ar fwy na sail lleol iawn, ond maen nhw'n gallu cefnogi gweithrediadau ar raddfa fwy, a allai arwain at effaith llawer mwy arwyddocaol. **Bydd y Cynllun Ffermio Cynaliadwy Cymru, sydd i'w gyflwyno yn 2025, yn cynnig cymorthdaliadau ac yn blaenoriaethu arferion ffermio sydd eisoes yn rhan arferol (nad ydynt yn derbyn cymhorthdal) o Ddatblygiadau Un Blaned**, megis sicrhau bod cyfran arwyddocaol o dir yn dir coediog a/neu gynefinoedd eraill sy'n cynnal bioamrywiaeth.

## CIPLUN GWNEUD LLE I FYWYD GWYLLT

*"Pan gyrhaeddodd yr ecolegydd i gynnal ei arolwg sylfaenol cychwynnol 5 mlynedd yn ôl, roedd wedi clustnodi diwrnod cyfan at y pwrpas. 40 munud yn ddiweddarach roedd wedi gorffen – ei grynodeb: 'does dim llawer yma a dweud y gwir'. Yr oeddwn ni'n dechrau o dirwedd noeth, ac mae'r hyn sydd wedi digwydd i'r bioamrywiaeth dros gyfnod o bum mlynedd yn gwbl wych ac yn rhyfedd iawn. Yr oeddwn wedi seilio'n gwaith ar egwyddorion Permaddiwylliant, ychydig o ddad-dofi tir ac agwedd agroecolegol gyffredinol – o'r cychwyn, mae popeth yr ydym yn gwneud wedi cael ei weld drwy'r lens hwnnw. Ar hyd y blynyddoedd 'rydym wedi gweld newid rhyfeddol:*

- *Blwyddyn 1 – nifer fawr o wlithod yn mwynhau'r ail-dyfiant ar hyn a oedd yn arfer bod yn dir pori gwartheg llaeth*
- *Blwyddyn 2 – brogaod a llyffantod duon yn cyrraedd*
- *Blwyddyn 3 – llawer o adar yn ymddangos*
- *Blwyddyn 4 – Mamaliaid yn dechrau ymddangos*
- *Blwyddyn 5 – Niferoedd ac amrywiaeth llawer o rywogaethau yn dal i dyfu*

*Uchafbwyntiau eleni: Gwenoliaid yn magu plu, Ystlumod yn clwydo yn y tŷ, Tylluanod Gwynion yn nythu, Gardd y Goedwig yn blodeuo, niferoedd mawr o benbyliaid yn y pyllau, y ddôl Blodau Gwyllt newydd yn ffynnu, Nadroedd defaid"*

**Keith Burgess, DUB Hafan y Coed, Glandwr**



*Llun gan Keith Burgess*

## 2.8 EFFAITH AR Y GYMUNED

**Fel arfer mae Datblygiadau Un Blaned yn ymwneud llawer â'r gymuned leol.** Maen nhw'n sôn am ddefnyddio siopau annibynnol lleol yn hytrach nag archfarchnadoedd (86%), defnyddio'r swyddfa bost leol yn gyson (81%), mynychu neu drefnu digwyddiadau cymunedol (75%), anfon plant i'r ysgol leol (90% o'r rhai sydd â phlant ar y safle, gan gynnwys y rhai hynny sydd yno ond yn rhan-amser).

Roedd y preswylwyr hefyd yn cofnodi bod yn aelodau o grwpiau cymunedol lleol megis yr eglwys, Sefydliad y Merched neu glwb cymdeithasol (50%), mynychu'r dafarn leol yn gyson (30%), a gwirfoddoli o'u hamser gydag elusennau lleol (25%). Roedd yr ymatebion eraill yn cynnwys bod yn Llywodraethwr Ysgol, rhedeg y llyfrgell leol, rhannu tŵls a pheiriannau, darparu cefnogaeth geni ac ôl-enedigol, atgyweirio offer fferm lleol, edrych ar ôl plant ffrindiau, a bod y plant yn cyfrannau at weithgareddau lleol megis y Cybiau neu ddawnsio. Mae'n nodweddiadol bod dau ymatebwr i'r cwestiwn hwn wedi dweud eu bod yn rhan o'r gymuned ar hyd eu hoes, ac nid oeddent yn teimlo bod angen rhestr o weithgareddau i'w gyfiawnhau. Yr ydym yn cytuno bod "integreddio cymunedol" yn anniriaethol, ac yn anodd i'w fesur. Yng ngoleuni'r gofynion eraill ar eu hamser a'u hegni, mae'n rhyfedd bod cymaint ohonynt yn gwneud yr amser i fynychu'r digwyddiadau allanol hyn.

Mae llawer o DUBau yn cynnal teithiau tywys a diwrnodau agored, ac yn cymryd rhan yn yr Wythnos Agored Datblygiadau Un Blaned flynyddol, menter sy'n rhoi'r cyfle i ymwelwyr leihau eu heffaith teithio drwy ymweld â DUBau cyfagos ar yr un diwrnod. Hyd yn hyn mae tua mil o ymwelwyr wedi profi'r teithiau tywys hyn, a dysgu mwy am ffordd o fyw bach ei effaith, ac maen nhw'n dal yn boblogaidd.

Mae ymatebwyr i'r arolwg yn cofnodi bod y safleoedd yn cynhyrchu, ar gyfartaledd, 0.9 swydd llawn-amser a 1.2 swydd rhan-amser, gan gynnwys swyddi'r preswylwyr eu hunain. Yn ychwanegol at hynny, mae tri DUB (8%) wedi cymryd prentisiaid ffurfiol.

***"Mae llawer o DUBau yn cynnal teithiau tywys a diwrnodau agored, ac yn cymryd rhan yn yr Wythnos Agored Datblygiadau Un Blaned flynyddol"***





Mae rhannu sgiliau, addysgu ac addysg hefyd yn rhan o effaith cymunedol DUBau. Roedd 74% wedi cofnodi cynnig cyfleoedd gwirfoddoli neu rannu sgiliau gydag eraill (ffigwr sydd efallai yn isel yn 2021 oherwydd cyfyngiadau Covid). Mewn rhai achosion mae hyn yn ffurfio rhan o'u hincwm: mae 57% yn cynnig gwaith ymgynghorol neu gyngor (naill ai am dâl neu'n ddi-dâl), ac mae 51% yn cynnal cyrsiau trafod gweithgareddau ar y tir.

Gall DUBau fod yn leoliadau deniadol at ddefnydd pobl eraills: roedd 43% o'r DUBau a arolygwyd yn lletya grwpiau o oedolion ar y safle (megis grwpiau garddio lleol) a 17% yn lletya grwpiau ysgol neu blant.

## CIPLUN CYMRYD PRENTISIAID

*"Yn Sŵn y Coed mae gennym llawer o gyfleoedd i bobl ymgysylltu, yn amrywio o ddigwyddiadau cymunedol, gwirfoddoli a rhannu sgiliau, i'n prentisiaid garddwriaeth tymhorol. 'Rydym wedi defnyddio cynllun Kickstart y Llywodraeth i gyflogi prentisiaid 16 – 25 mlwydd oed sy'n byw yn lleol a sydd am ddysgu tyfu llysiau a rhedeg menter garddwriaeth. Yn ogystal â dysgu am arddwriaeth a phrosesu bwyd, maen nhw hefyd yn dysgu am gynhyrchu compost a biowrteithiau, ac yn dysgu coginio llysiau maethlon iawn a'u trosglwyddo o'r cae i'r plat, tra'n archwilio moeseg ac egwyddorion Paramaethu. Mae wedi bod yn brofiad braf cael pobl ifanc yn rhan o'r prosiect, ac yn galonogol iawn eu gweld yn tyfu eu hyder a'u hunan-barch, a mynd ymlaen i ennill cyflogaeth pellach yn yr ardal."*

**Peni Ediker, DUB Sŵn y Coed, Llanboidy**

*Llun gan Peni Ediker*



## 2.9 EFFAITH AR YR IAITH GYMRAEG

Nid yw'r Canllawiau Ymarfer DUB yn sôn am yr iaith Gymraeg, naill ai fel maen prawf asesu hanfodol neu gyfrannol. Er gwaethaf hyn, yr ydym yn gweld bod gan **aelwydydd DUB lefel uwch na'r cyfartaledd o ddefnydd o'r iaith Gymraeg, gan gynnwys dysgu Cymraeg yn weithredol a chofrestru plant yn addysg cyfrwng Cymraeg. Felly, mae Datblygiadau Un Blaned yn cyfrannu'n bositif at Ddangosyddion Llesiant Cenedlaethol 36 a 37, sy'n berthnasol i'r defnydd bob dydd o'r iaith Gymraeg, a'r dyhead i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.**

Roedd pedwar o'r 36 safle DUB a arolygwyd (11%) wedi dweud bod yr aelwyd yn cynnwys o leiaf un siaradwr Cymraeg rhugl. Mae hyn yn cymharu â'r cyfanswm o 10% o siaradwyr Cymraeg rhugl yng Nghymru fel y cofnodwyd yn yr Arolwg Defnydd Cymraeg 2019-2020.

*O'r 21 safle DUB a arolygwyd a oedd yn cynnwys plant, mae 16 mewn ardaloedd Cymraeg eu hiaith. Mae 12 o'r 16 hyn (75%) wedi dewis cofrestru eu plant yn addysg cyfrwng Cymraeg, ac mae tri o'r pedwar sy'n weddill (75%) yn "dysgu Cymraeg yn weithredol". Mae addasrwydd lleoliad addysg ar gyfer unrhyw blentyn uigolyn yn fater o ddewis i'r rhieni, felly mae'n galonogol gweld y fath niferoedd uchel yn dewis blaenoriaethu'r iaith Gymraeg.*



*Ymweliad ysgol. Llun gan Anthony James*

## FFIGWR 2.9 DEFNYDD O'R IAITH GYMRAEG GAN AELWYDYDD DUB

*Ffigwr 2.9: Tabl yn dangos defnydd yr iaith Gymraeg mewn aelwydydd DUB o'u cymharu â'r cyfartaledd. *Cyfartaledd cenedlaethol o'r Arolwg Defnydd Cymraeg 2019-2020. **Ffigyrau Sir Gaerfyrddin o Arolwg Cenedlaethol Cymru 2017-2018, gan ddefnyddio'r categorïau "yn gallu siarad Cymraeg" a "yn meddu ar beth gallu yn y Gymraeg". ***Ffigyrau ar gyfer ysgolion Sir Gaerfyrddin 2019-20 yn dod o'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (2021).*

| | SIR GAERFYRDDIN | CYFARTALEDD CENEDLAETHOL* | DUB YN GYFFREDINOL (N=36) | DUB MEWN ARDALOEDD CYMRAEG EU HIAITH (N=29) |
|---|---|---|---|---|
| SIARADWYR CYMRAEG RHUGL | 44%** | 10% | 11% | 14% |
| YN SIARAD PETH CYMRAEG NEU'N DYSGU | 18%** | 22% | 67% | 83% |
| ADDYSG CYFRWNG-CYMRAEG | 58% o ddisgyblion Blwyddyn 1 *** | 25% o blant | 57% o'r aelwydydd sy'n cynnwys plant | 75% o'r aelwydydd sy'n cynnwys plant |




Gan ei bod yn ymddangos bod rhai sy'n beirniadu'r Datblygiad Un Blaned yn poeni'n ddirfawr ynghylch yr effaith posibl ar gymuned Cymraeg eu hiaith, yr ydym yn argymell y gallai defnydd o'r iaith Gymraeg gael ei grybwyll fel maen prawf cyfrannol ychwanegol er mwyn cefnogi Cynlluniau Rheoli DUBau mewn ardaloedd Cymraeg eu hiaith.

***"Yr ydym yn gweld bod gan aelwydydd DUB lefel uwch na'r cyfartaledd o ddefnydd o'r iaith Gymraeg, gan gynnwys dysgu Cymraeg yn weithredol a chofrestru plant yn addysg cyfrwng Cymraeg."***

## CIPLUN YR IAITH GYMRAEG A DIWYLLIANT CYMRU

*"Mae polisi Datblygiad Un Blaned wedi rhoi'r cyfle i mi a fy nheulu i fyw yn lleol, i greu gwaith ystyrlon i'n hunain ac i adeiladu cartref fforddiadwy ym mro fy mebyd. Trwy hyn, rydym nawr yn gallu aros a byw yn nyffryn Tywi gan gyfrannu tuag at fywyd, economi a diwylliant Cymreig unigryw'r ardal. Rwy'n gweld potensial gwych gan y polisi i helpu eraill sydd am aros neu ddychwelyd i'w ardal enedigol i fedru gwneud hynny, a thrwy hynny, bywiocau'r iaith Gymraeg a chreu busnesau bach cyffrous a chynaliadwy sydd yn cyfrannu tuag at economi lleol, gwyrdd a chylchol."*

**Sioned Haf, DUB Llwyn Pur, Llansadwrn**



*Llun gan Sioned Haf*

## 2.10 LLESIANT

Holwyd aelwydydd DUB ynghylch faint oedd wedi newid o ran eu llesiant cyffredinol ers iddynt adael eu bywydau "cyn DUB". Mae'r canlyniadau yn Ffigwr 2.10 yn dangos bod gwelliant cyffredinol cyfartalog mewn llesiant, ond nid i bawb. Yn erbyn cefnlen o newid cymdeithasol a gwleidyddol dros y blynyddoedd diwethaf, yn bennaf oll effaith y pandemig Covid-19, byddai'n anodd dweud p'un ai bod yr effeithiau hyn oherwydd DUB. **Roedd yr ymatebion ansoddol a oedd yn sôn am lesiant wedi amlygu'r boddhad personol o fyw ar dir sy'n ecolegol gynaliadwy, yn ogystal â'r straen o sefydlu busnes, tŷ a gardd mewn cyfnod o bum mlynedd, a'r ffaith bod rhaid adrodd y ôl mewn manylder ynghylch cynnydd.**

Codwyd rhai pryderon ynghylch natur ymwthiol rhai agweddau ar y gofynion cofnodi parhaus, sy'n cynnwys ceisiadau am lawer fwy o wybodaeth nag y mae'r polisi yn mynnu, am wybodaeth sensitif, neu am gyfiawnhad manwl o newidiadau nad ydynt yn dylanwadu ar y gallu i gwrdd â meini prawf DUB. Hefyd, mae methiant swyddogion cynllunio a gorfodi i ddeall rychwant y cofnodi yn arwain at wastraffu amser ac adnoddau yr Awdurdod Cynllunio Lleol a'r DUB fel ei gilydd ac, mewn rhai achosion, wedi cael effaith negyddol sylweddol ar iechyd meddwl yr ymgeiswyr a'r ymarferwyr. Byddai egluro'r hyn sydd ei angen, a'r hyn nad oes angen ei gynnwys yn yr adroddiad blynyddol yn fuddiol. Yr ydym yn trafod hyn ymhellach yn adran 4, isod.

### FFIGWR 2.10 LLESIANT PRESWYLWYR DUB




*Ffigwr 2.10: Atebion yr arolwg i'r cwestiwn "O'i gymharu â 'ch bywyd "cyn-DUB", ydych chi'n teimlo bod eich llesiant cyffredinol wedi gwella? (Atebwch "3" os "nad oes newid"). "Mae1 a 2 yn cynrychioli lleihad a 4 a 5 yn welliannau mewn llesiant. Cyfanswm o 34 ymateb.*



*Llun gan Mania Naimen*



*Llun gan Anthony James*

Un straen sydd yn cael ei leihau, o gymharu DUBau ag aelwydydd confensiynol, yw cost byw. Mae'r defnydd o ynni adnewyddadwy, er ei fod yn aml yn golygu gwariant cychwynnol sylweddol ar seilwaith yn amddiffyn, i raddau, aelwydydd DUB rhag wynebu costau ynni. Heb filiau nwy neu drydan, biliau bwyd sylweddol is, anghenion teithio sylweddol is a defnydd isel yn gyffredinol, mae aelwydydd DUB wedi gweld llawer llai o gynnydd yng nghostau byw o'u cymharu ag aelwyddydd cefn gwlad tebyg, yn cymudo i'r gwaith o dai sydd wedi'u hinsiwleiddio'n wael. Mae hyn yn ffordd hynod o dynnu sylw at gyfle i wella gwytnwch, ar raddfa alwyd, yng Nghymru wledig.

## CIPLUN BYWYD UN BLANED

*"Cyn symud i'r safle yr oeddwn y rhentu yn y pentref cyfagos. Roedd Datblygiad Un Blaned wedi cynnig i ni gyfle fforddiadwy a mwy cynaliadwy o fyw a chodi'n teulu. Mae bywyd wedi newid mewn rhai ffyrdd sylfaenol. Mae ein trydan y dod o ynni adnewyddadwy (solar a choed tân). Hefyd mae'r tŷ wedi'i insiwleiddio'n dda ac yn ynni effeithlon. Mae anghenion sylfaenol megis cael bath twym, golchi dillad, coginio mewn ffwrn drydan a defnyddio rhewgell yn dal i fod yn rhan o'n bywydau, er bod rhaid ystyried pryd ac ym mha ffordd yr ydym yn eu defnyddio, yn enwedig yn ystod y gaeaf.*

*Yr ydym yn treulio llawer mwy o amser yn yr awyr agored, yn edrych ar ôl gwelyau ffrwythau a llysiau, yn plannu a chynnal coed, torri'r glaswellt a chynnal a chadw llwybrau troed. Mae'r 'gampfa werdd' yn dda i'r iechyd ond, serch hynny, ar brydiau roedd maint y gwaith, yn enwedig yn ystod y cyfnod cychwynnol a thra'n sefydlu'r cyfan, yn llethol ac wedi effeithio ar ein cydbwysedd gwaith/bywyd. Yr ydym yn dod ymlaen yn dda gyda'n cymdogion, ac yn teimlo'n rhan o'r gymuned yma. Mae ein dau fab yn chwarae criced i'r clwb lleol ac mae'r bobl leol yn gwerthfawrogi'r ffrwythau a'r llysiau y maen nhw'n gallu prynu o'n stondin ger y glwyd neu yn y siopau lleol."*

**Stefan Cartwright, DUB Pencoed, Llechryd**

*Llun gan Natasha Cartwright*



## 2.11 TAI DI-GARBON

Mae gofyn bod adeiladau sy'n cael eu codi fel rhan o Ddatblygiadau Un Blaned yn "ddi-garbon yn eu hadeiladwaith a'u defnydd". Yn 2012, pan gafodd y Canllaw Ymarfer DUB ei gyhoeddi, y disgwyl oedd y byddai diffiniad cenedlaethol o Gartrefi Di-Garbon y gallai hunan-adeiladwyr DUB gyfeirio ato, yn cael ei ddarparu. Nid oedd hyn wedi digwydd, gan adael adeiladwyr gyda set cyfyngedig o ganllawiau o'r Côd Cartrefi Cynaliadwy (2007), y Rheoliadau Adeiladu Rhan L (Cymru) (2010), a TAN22 Cynllunio ar gyfer Adeiladau Cynaliadwy (2010).

Yn ymarferol, felly, **mae adeiladwyr tai DUB wedi cymryd agwedd bragmatig at leihau carbon, blaenoriaethu lefelau uchel o insiwleiddio a deunyddiau lleol, naturiol sy'n atafaelu carbon yng ngwead yr adeilad.** Mae'r math hyn o brofiad ymarferol, hygyrch yn amhrisiadwy i hunan-adeiladwyr y dyfodol (DUB neu beidio) ac yn wrthbwynt i'r diwydiant adeiladu "prif-lif". Gall y costau y metr sgwâr o adeiladu tai DUB fod yn gymharol i gostau adeiladu confensiynol, ond mae gan dai DUB well berfformiad ynni ac mae eu dyluniad yn harddach ac yn fwy unigol.

**"Mae adeiladu di-garbon"** yn cyfeirio at y tŷ ei hun, a'r deunyddiau a ddefnyddir yn ei adeiladwaith. Mae'r deunyddiau adeiladu nodweddiadol yn cynnwys:

- **Pren o ffynhonnell leol.** Mae llawer o DUBau yn cael ei pren strwythurol ar gyfer fframio a chladin/ estyllod dŵr o felinau coed sy'n defnyddio coed o goetiroedd lleol, a reolir yn gynaliadwy.
- **Gwellt.** Mae gwellt yn insiwleiddiwr da iawn (U=0.171 W/m$^2$K - byrn bach o led safonol). Mae paneli gwellt parod yn cyrraedd yr un lefelau o insiwleiddiad, ac yn haws i'w codi a'u rendro.
- **Hempcrît.** Deunydd cyfansawdd o ffeibrau cywarch a chalch, mae hempcrît yn ddeunydd insiwleiddio amlbwrpas, yn meddu ar fás thermol ac yn hawdd i'w rendro.
- **Rendrau calch a chlai traddodiadol.** Mae rendrau calch ac estyllod dŵr yn aml yn cael ei defnyddio'n allanol, a phlastrau calch a chlai yn fewnol.
- **Deunydd insiwleiddio o wlân neu seliwlos.** Ar gael mewn llawer ffurf gwahanol, mae deunyddiau insiwleddio naturiol yn ddiwenwyn, yn athraidd ac ar gael yn lleol.
- **Deunyddiau a ail-ddefnyddiwyd neu ail-gylchwyd.** Mae hunan-adeiladwyr Un Blaned wedi gwneud defnydd llawn dychymyg o ffenestri a fesurwyd yn anghywir, offer ystafell ymolchi ail-law, drysau a ail-ddefnyddiwyd a chelfi o Freecycle a siopau elusen.

*"Gall y costau y metr sgwâr o adeiladu tai DUB fod yn gymharol i gostau adeiladu confensiynol, ond mae gan dai DUB well berfformiad ynni."*



Mae pren, gwellt a hempcrît oll yn storio carbon yng ngwneuthuriad y tŷ ei hun. Pe byddai diffiniad clir o "sero carbon" ar gael, byddai'n bosibl cynnal dadansoddiad carbon pellach o rai o'r tai DUB sydd eisoes yn bodoli.

Mae dulliau adeiladu DUB yn fach eu heffaith, yn aml yn cynnwys llafur sylweddol gan y preswylwyr eu hunain, yn ogystal â gwaith am dâl a chyfleodd rhannu sgiliau. Mae adeiladu DUB yn cefnogi busnesau Cymreig eraill gan gynnwys cyflenwyr adeiladwyr lleol a chrefftwyr. Mae sawl ffrâm tŷ DUB wedi'u hadeiladu gan Tŷ Pren, cwmni ffrâm pren cydweithredol ger Llanbedr pont Steffan sy'n defnyddio offer llaw a choed llarwydd o ffynonellau lleol, gan ffocysu ar hyfforddi prentisiaid i ddefnyddio dulliau a sgiliau adeiladu traddodiadol.

Mae **"defnydd di-garbon"** yn cyfeirio at berfformiad yr adeilad pan mae'n cael ei ddefnyddio. Y flaenoriaeth gyntaf yw lleihau'r galw am ynni, sy'n cael ei gyflawni gan ddefnyddio lefelau uchel o insiwleiddio a chynllunio ynni-ymatebol. Efallai y bydd hyn yn cynnwys defnyddio gwydraid cysgodol ar yr ochr ddeheuol i wneud y gorau o ynni'r haul yn y gaeaf heb gordwymo yn yr haf, talu sylw at strategaethau awyru a chynnwys más thermol.

Mae'r ffynonellau ynni a ddefnyddir gan DUBau wedi'u dadansoddi uchod. Mae llawer o dai DUB yn gwneud heb unrhyw danwydd ffosil o gwbl, ac ond yn defnyddio ynni adnewyddadwy: mae hyn yn ei gwneud hi'n haws dweud bod gennym "ddefnydd di-garbon". Pe byddai diffiniad clir o "ddi-garbon" yn bodoli, byddai'n bosibl cynnal dadansoddiad carbon manylach o'r rhai hynny sy'n defnyddio nwy i goginio'n dymhorol (a ganiateir gan y Canllaw Ymarfer) a'r rhai sy'n bwydo ynni adnewyddadwy yn ôl i'r Grid Cenedlaethol.

**Mae rhai tai DUB wedi ennill Tystysgrif Perfformiad Ynni sy'n well na 100 y 100 ar gyfer effeithlonrwydd ynni ac effaith amgylcheddol.** Er cymhariaeth, mae'r Dangosydd Llesiant Cenedlaethol rhif 33 yn cyfeirio at y canran o dai sydd â pherfformiad o 65 neu uwch. Erbyn hyn, mae un tŷ DUB wedi'i ardystio'n "Dŷ Goddefol", yn cwrdd â'r safonau adeiladu mwyaf llym o ran effeithlonrwydd.

Mae'r strwythurau'n ddarostyngedig i'r **Rheoliadau Adeiladu** yn yr un ffordd ag unrhyw dŷ annedd newydd arall. Yn aml, mae tai annedd DUB yn defnyddio dulliau anghonfensiynol nad ydynt wedi'u rhestru yn y "Dogfennau Cymeradwy", ond yn gallu tystio eu bod yn cydymffurfio â'r rheoliadau mewn ffyrdd arloesol. Fel bod cynllunio ecolegol yn dod yn fwy brif-lif, mae mwy o dystiolaeth ar gael i gefnogi, er enghraifft, gwerth insiwleiddio deunyddiau megis hempcrît a byrnau gwellt. Mae datrysiadau i ddŵr oddiar y grid a thrin gwastraff yn cael eu profi a'u rhannu. Mae'r gofyn am systemau atal tân awtomatig, megis chwistrellwyr, wedi bod yn broblem ac wedi golygu gwariant uwch i rai tai annedd oddiar y grid nad oes ganddynt fynediad at ddŵr pwysedd uchel o'r prif gyflenwad.

## CIPLUN ADEILADU DDI-GARBON

*"Pan yn ystyried symud yn ôl i Gymru, 'roeddwn wedi archwilio llawer o wahanol opsiynau, ond roedd yr apêl o adeiladu ein tŷ ein hunain bob amser wedi trechu'r syniadau eraill. Gwydr wedi'i ailgylchu yw sylfaen llawr y tŷ a'r deunydd o ddewis ar gyfer y welydd oedd hempcrit, yn cynnig insiwleiddiad uchel, ynni ymgorfforedig cymharol isel gan ddefnyddio cywarch a dyfwyd yn y DU. Yr ymdrech gydweithredol o siapio'r tŷ, yn llythrennol, gyda'n dwylo a gyda dwylo llawer o wirfoddolwyr, ffrindiau ac aelodau'r teulu oedd ein hoff rhan o'r gwaith adeiladu. Yr ydym wir yn teimlo bod ôl yr holl helpwyr ar y tŷ. Yn weledol, mae'r defnydd o rendr calch ar y tu allan yn atseinio esthetig bwythyn Cymreig traddodiadol tra bod y cladin, o larwydd a felinwyd llawr yr heol gan ddefnyddio pren lleol, yn helpu'r tŷ ymdoddi i'r tirwedd. Mae gweld y tŷ yn cymryd ei le ar y fferm, yn y caeau lle y cefais fy magu, yn broses anhygoel."*

**Willow Murton, DUB Cryn Fryn, Penuwch**

*Llun gan Willow Murton*



## 2.12 MYFYRIO AR Y CYFNOD SEFYDLU PUM MLYNEDD

Mae'r angen i ddangos bod holl feini prawf y DUB yn cael eu diwallu, o fewn pum mlynedd, yn cymryd llawer iawn o waith. Mae gan y bobl sy'n cychwyn Datblygiad Un Blaned gymhelliad mawr, ac maen nhw'n fedrus a dyfeisgar, ac eisoes wedi wynebu'r her o ysgrifennu, cyflwyno ac amddiffyn Cynllun Rheoli DUB i foddhad y system gynllunio. Serch hynny, roedd yr ymatebwyr i'n harolwg wedi amlygu'r straen a'r ymdrech sydd ynghlwm â chyflawni gymaint o weithgareddau mewn pum mlynedd. **Byddai llawer o bobl yn ystyried adeiladu tŷ yn un o heriau bywyd: mae DUBau yn gwneud hyn, yn ogystal â sefydlu busnes ar y tir, tyfu canran fawr o'u bwyd eu hunain, lleihau eu heffaith ecolegol, gwella cynefinoedd a bioamrywiaeth ac ymgysylltu â'r gymuned leol.** Ac mae'r rhain i gyd yn ychwanegol at yr heriau mwy cyffredin o fagu teulu neu, dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, ymdopi ag effaith pandemig byd-eang ac ansicrwydd economaidd.

Un feiriadaeth benodol o'r cyfnod pum mlynedd yw'r anhawster mewn cynhyrchu cnydau coed (gan gynnwys tanwydd) o fewn y terfyn amser hwnnw. Roedd yr ymatebwyr wedi dweud bod pwysau'r cyfnod pum mlynedd ambell waith yn annog gwneud dewisiadau llai addas, megis

- Dewis corgwreiddgyffion ar gyfer coed ffrwythau megis afalau, a fyddai'n dwyn ffrwyth o fewn pum mlynedd, ond efallai nid yn ddigon cryf i oroesi yn yr hirdymor.
- Dewis coed coedlan cylchdro yn iawn (coed helyg yn bennaf), a fydd yn darparu cynhaeaf coed mewn pum mlynedd, ond sydd efallai'n llai addas ar gyfer y safle na choedlan gymysg cylchdro-hirach.

Roedd hefyd gan yr ymatebwyr gynlluniau parhaus i ddatblygu'r safle y tu hwnt i'r pum mlynedd, gan ddangos na fyddai'r safle wedi'i sefydlu'n iawn ar yr adeg honno. Wrth bod cnydau coed ac ardaloedd garddwriaeth newydd yn dod yn fwy sefydlog, a bod busnesau'n dal i ddatblygu marchnadoedd a chwsmeriaid newydd, byddai'n rhesymol disgwyl bod cynhyrchiant llawer safle yn cynyddu'n sylweddol wedi'r cyfnod pum mlynedd. Mae gwelliannau ecolegol i'r safleoedd hefyd yn newidiadau hirdymor, ac yn cael effaith dros gyfnod llawer hirach na phum mlynedd.

Mae sawl DUB wedi cofnodi bod y pandemig Covid-19 wedi cael effaith andwyol, gan gyfeirio'n benodol at Covid Hir, profedigaeth neu effaith ar y busnes. Mae rhai o'r DUBau wedi ymgysylltu â'u hadran gynllunio i drafod eu pryderon ac wedi negodi peth ystyriaeth neu lwfans, er enghraifft oediad blwyddyn yn yr adrodd yn ôl. Yr ydym yn trafod yr agwedd hon ymhellach o dan y fframwaith Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn Adran 4, isod.

***"Mae gan y bobl sy'n cychwyn Datblygiad Un Blaned gymhelliad mawr, ac maen nhw'n fedrus a dyfeisgar"***



*Llun gan Daisy Bee*



***"Byddai llawer o bobl yn ystyried adeiladu tŷ yn un o heriau bywyd: mae DUBau yn gwneud hyn, yn ogystal â sefydlu busnes ar y tir, tyfu canran fawr o'u bwyd eu hunain, lleihau eu heffaith ecolegol, gwella cynefinoedd a bioamrywiaeth ac ymgysylltu â'r gymuned leol."***

## CIPLUN PUM MLYNEDD DDWYS

*"Mae'r freuddwyd o fyw'n ecolegol tra'n cael yr effaith lleiaf ar adnoddau'r blaned yn rhywbeth sydd wastad wedi bod wrth galon ein hagwedd foesegol ar fywyd.*

*Cafodd ein hadroddiad 5-mlynedd ei gyflwyno ym mis Mai 2022, ac roedd yn dangos sut yr ydym wedi trawsnewid, yn drylwyr, cae gwyrdd a'i droi'n dyddyn sy'n dal i dyfu i fod yn amgylchedd aml-haen sy'n ein bwydo, yn meithrin ein llesiant, yn cynyddu bioamrywiaeth ac, ein gobaith yw, yn dangos i eraill bod byw bywyd 'modern' yn bosibl tra'n defnyddio ond adnoddau 'un blaned'. Mae ein busnes llaeth ceirch wedi bod yn llwyddiannus o'r dechrau, gyda mwy yn gofyn amdano nag y gallwn gyflenwi. Mae ein cwsmeriaid mor gefnogol o'r prosiect ac yn hapus eu bod yn gallu prynu cynnyrch sy'n garbon isel iawn, a ddim yn cynhyrchu unrhyw wastraff.*

*Mae adeiladu tŷ-eco o'r decharu, ynghyd â busnes tir, tra'n gwneud swydd a chodi'n dau blentyn wedi bod yn ymdrech anferthol, a'r her fwyaf 'rydym wedi'i wynebu eroed. Mae llunio'r adroddiadau blynyddol wedi bod yn brofiad annisgwyl o dda, gan ei fod wedi ein gorfodi i fyfyrio, mewn manylder, ar y newidiadau mawr yn ein ffordd o fyw, a'r hyn yr ydym wedi llwyddo cyflawni mewn cyn lleied o amser."*

**Silvia Tippins, DUB Tŷ Gwennol, Llanboidy**

*Llun gan Silvia Tippins*



## 2.13 ARLOESEDD, DYSGU AC ARWEINYDDIAETH

Mae ymgymryd â Datblygiad Un Blaned yn cynnwys mynd ymhellach na'r ffordd "arferol" o wneud pethau. Gan ddatblygu gwahanol ddatrysiadau i'r her o fyw bywyd modern tra'n achosi effaith amgylcheddol isel iawn, mae safleoedd DUB yn arddangos arweinyddiaeth greadigol o ran arloesi carbon isel ar raddfa'r aelwyd. Mae'r esiamplau'n cynnwys:

**Newid y galw am ynni, a newid ymddygiad yn sylfaenol**

Mae'n rhaid i DUBau, hyd yn oed y rhai hynny sydd â chysylltiad â'r grid trydan, ymdopi â'r newidiadau tymhorol mewn argaeledd trydan. Mae newid ymddygiad megis penderfynu sut mae coginio bwyd, a phryd mae gwneud hynny, pryd y dylid gwneud y golch neu ymolchi, a lleihau defnydd pan fod angen yn matsio, yn agos, y prif oriau cynhyrchu. Gan fod y mwyafrif o DUBau'n dibynnu'n gryf ar drydan solar, mae hyn yn cynnwys manteisio ar ddiwrnodau hir yr haf i dwymo dŵr neu gadw cynnyrch, yn ogystal â lleihau'r galw am ynni ym misoedd tywyllach y gaeaf drwy droi offer dianghen i ffwrdd. Mae addasu at y cylchoedd defnyddio ynni dyddiol a thymhorol hyn yn herio'r canfyddiad prif-lif na all aelwydydd dderbyn newidiadau ymddygiad llawer llai er mwyn cynnal gwytnwch y grid gyda chanran uchel o ynni adnewyddadwy.

**Creu systemau ynni adnewyddadwy**

Yn ogystal, mae rhai DUBau sy'n meddu ar sgiliau neu ddiddordeb technegol penodol wedi arloesi a chreu dyfeisiau ynni adnewyddadwy raddfa-fechan, gan gynnwys generatur dŵr arbrofol cartref, coginio gan ddefnyddio ynni'r haul yn uniongyrchol a phrosesu (megis sychu perlysiau, ac echdynnu cŵyr gwenyn gan ddefnyddio ynni'r haul), a dyfeisio biodreuliwr i gynhyrchu nwy adnewyddadwy at ddibenion coginio ar raddfa-aelwyd (gweler Ciplun).

**Addasu at dymheredd eithafol**

Mae tai DUB, sydd wedi'u hinsiwleddio'n dda, yn gyffredinol gyfforddus yn yr haf a'r gaeaf, ac nid oes angen arnynt llawer o wresogi neu oeri gweithredol. Mae preswylwyr DUB yn cofnodi bod dyluniad solar goddefol, sy'n cynnwys cysgodi'r ffenestri yn ystod yr haf, portsys i gadw drafftiau oer draw yn y gaeaf, más thermol a strategaethau awyru goddefol, oll yn golygu bod y tŷ yn perfformio'n dda, a hynny mewn ystod o amgylchiadau.

**Bwyta'n dymhorol, cadw a storio bwyd**

Gan fod gofyn iddynt gynhyrchu canran fawr o'u bwyd ar y safle, rhaid i DUBau, yn gyffredinol, gadw at ddeiet tymhorol. Mae hyn yn golygu bod gofyn addasu rysetiau a dulliau cogino i gydfynd â'r adnoddau sydd ar gael. Mae gerddi cegin yn ymestyn tymor cynaeafu cnydau ffres penodol drwy ddefnyddio amrywiol gyltifarau, plannu dilynol, a chnydio dan-do, ond mae dal cyfnodau o ormodedd ac o brinder. Er mwyn ymestyn y defnydd o'r un cnydau, mae angen storio bwyd a defnyddio dulliau cadw – nid oes gan lawer o DUBau ddigon o drydan yn y gaeaf, neu chwaith y lle, i osod bwyd yn y rhewgell. Mae'r dulliau storio ynni-isel yn cynnwys sychu, canio, halltu, cadw ac eplesiad.

**Trin dŵr llwyd a systemau ailgylchu maethynnau**

Mae'r gofyn bod DUBau, cyn belled a bod modd, yn delio â gwastraff ar y safle hefyd yn creu adnodd: mae cardfwrdd, deunydd organig o'r ardd, gwastraff o'r gegin a gwelyau'r anifeiliaid oll yn cael eu defnyddio i gynnal ffrwythlondeb yr ardaloedd garddwriaeth. Gall gwastraff dynol gael ei gompostio'n ddiogel a'i ddefnyddio ar y safle o dan cnydau coed. Mae modd trin dŵr llwyd mewn gwelyau cyrs neu mewn tanciau septig biolegol. Mae DUBau yn treialu gwahanol ffyrdd o reoli gwastraff ar lefel aelwyd, ac yn rhannu eu profiad.



*"Mae safleoedd DUB yn arddangos arweinyddiaeth greadigol o ran arloesi carbon isel ar raddfa'r aelwyd."*

Yn ychwanegol, **mae Datblygiadau Un Blaned yn cyfrannu at arweinyddiaeth rhwydweithiol, gan rannu arfer orau mewn arloesedd carbon-isel ar raddfa ehangach neu fasnachol.** Mae'r esiamplau'n cynnwys:

- **Hwb Hadau Cymru**
  Mae'r fenter gychwynnol hon yn fudiad cydweithredol o dyfwyr Cymreig, sy'n cydweithio i farchnata, pacio a dosbarthu hadau. Mae Hwb Hadau Cymru yn cynhyrchu hadau a beilliwyd yn naturiol, ac a dyfwyd ar ffermydd Cymru gan ddefnyddio arferion agroecolegol, ac mae'n anelu at gynyddu amrywiaeth hadau yng Nghymru. Maen nhw'n ceisio tyfu amrywiadau nad ydynt ar gael yn gyffredinol mewn mannau eraill, a sy'n tyfu'n dda yn hinsawdd Cymru. Mae sawl DUB wedi ymwneud â'r cynllun fel aelodau sefydlu Hwb Hadau Cymru, gan ymgymryd â chwrs hyfforddiant yn y lle cyntaf ac yna'n tyfu a gwerthu hadau fel rhan o'u hincwm o'r tir. Mae'r cyfan mewn cydweithrediad â Sefydliad Gaia.

- **Gŵyl Eplesiad**
  Wedi'i drefnu gan DUB Parc y Dderwen DUB, mewn cydweithrediad â'r Landworkers Alliance, roedd yr ŵyl hon wedi dod â channoedd o selogion at ei gilydd i fwynhau bwyd a diod eples o bob math. Roedd y rhaglen yn cynnwys gweithdai rhannu sgiliau a'r siaradwr gwadd Sandor Katz (a drefnwyd gan y cyhoeddwr Chelsea Green), yn ogystal â digon o amser cymdeithasol i rwydweithio a mwynhau'r safle hyfryd.

- **Cynllun labelu cynnyrch Un Blaned**
  Oherwydd eu cymwysterau ecolegol, mae llawer o alw am gynhyrchion Datblygiadau Un Blaned. Ar hyn o bryd mae'r cynllun labelu cynnyrch Un Blaned yn cael ei beilota gan nifer fechan o gynhyrchwyr. Wrth bod mwy o DUBau yn cyrraedd yr adeg pan y mae ganddynt gynnyrch sylweddol i'w gynnig yn lleol, y bwriad yw i ehangu'r cynllun a chreu gwefan a strategaeth farchnata er mwyn helpu DUBau i gydweithio a chodi'r galw am gynnyrch cynaliadwy lleol.




## CIPLUN ARLOESEDD CARBON ISEL

*"Ar ôl darganfod ein bod yn gallu defnyddio tanc plastig llawn bacteria i droi gwastraff bwyd yn nwy coginio, roedd rhaid i ni rhoi tro arno. Y canlyniad yw Biff y Biodreuliwr. Mae'n gafn tec-isel, cynhaliaeth-isel o fywyd meicroscopig sydd wedi bod yn cynhyrchu tanwydd carbon-niwtral i ni am ddim ers 2018. 'Dydyn ni wir ddim yn gwybod faint o nwy potel sydd wedi'i arbed diolch i Biff ond, yn sicr, mae wedi ein helpu ni leihau ein defnydd o danwydd ffosil, ac felly lleihau'n ôl-troed ecolegol. Y gobaith yw ei fod hefyd wedi bod o gymorth i'r rhai hynny sydd wedi mynychu'n cyrsiau Adeiladwch eich Biodreuliwr eich Hun i wneud yr un peth. Nid ydym wedi llwyddo hyd yn hyn i osod biodreuliwr ymhob cartref ym Mhrydain, ond mae profi bod y system yn gweithio yn y DU wedi creu llawer o diddordeb ac, yn sicr, mae mwy ohonynt yn bodoli erbyn hyn nag oedd ar gael cyn i ni adeiladu'n biodreuliwr."*

**Matthew Watkinson, DUB Beeview Farm, Casnewydd**




*Llun gan Matthew Watkinson*

## 2.14 ARWEINYDDIAETH RHYNGWLADOL

**Mae enw da i'r Datblygiad Un Blaned y tu allan i Gymru, ac mae wedi ysbrydoli polisïau tebyg mewn mannau eraill.** Mae'r Cyngor Un Blaned wedi cydweithio gydag amrywiol swyddogion a phrosesau mewn gwledydd eraill, ac yn parhau i fynd ar ôl cyfleoedd allgymorth megis yr Wythnos Agored a'r adroddiad hwn, er mwyn codi proffil DUB.

Yn Lloegr, mae Cynllun Lleol newydd Dartmoor 2018-2038 (a fabwysiadwyd yn 2021) yn cynnwys polisi ar gyfer Datblygiad Preswyl Bach ei Effaith (3.1.2), a addaswyd o bolisi DUB Cymru. Mae Dogfen Cynllun Datblygu Argyfwng Hinsawdd a gyflwynwyd gan Gyngor Cernyw yn cael ei harchwilio ar hyn o bryd gan yr Arolygiaeth Gynllunio, ac yn cynnwys polisi ar gyfer Datblygiad Adfywio Bach ei Effaith (AL.1), a addaswyd o DUB hefyd. Mae cynghorau eraill yn Lloegr, gan gynnwys cyngor Fforest y Ddena, hefyd wedi mynegi diddordeb mewn copïo'r polisi DUB yn lleol.

Mae'r Cyngor un Blaned wedi helpu gyda'r gwaith ymchwil i gefnogi datblygiad Cynnig Bil Anweithredol (neu Fil Aelod Preifat) am Ddatblygiad Un Blaned yng Ngogledd Iwerddon. Yr ydym hefyd wedi lletya ymweliad ymchwil â DUB gan Aelod Senedd o Aotearoa / Seland Newydd.


*Llun gan Natasha Cartwright*


*Llun gan Brendan Powell*

3

# CEISIADAU DUB AM GANIATÂD CYNLLUNIO
2010-2021

*Arolwg o'r dystiolaeth ynghylch deilliannau ceisiadau cynllunio Datblygiad Un Blaned.*

# CEISIADAU DUB AM GANIATÂD CYNLLUNIO 2010-2021

3

Mae'r adran hon yn adolygu'r ystadegau a phrofiadau ynghylch ceisiadau DUB am ganiatâd cynllunio. Rhaid diolch i Brett Sanders, o Brifysgol Coventry, a oedd wedi casglu'r data rheoli datblygiad at ei gilydd fel rhan o'i ymchwil PhD, a sydd wedi caniatáu ein bod yn ei ddefnyddio yma.

## 3.1 NIFER Y CEISIADAU

Hyd belled ag y gwyddwn, erbyn diwedd 2021 roedd 11 o'r 25 ardal Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLl) yng Nghymru wedi gwneud penderfyniad ynghylch 63 cais Datblygiad Un Blaned ac, hyd yn hyn, mae 39 (62%) ohonynt wedi derbyn caniatâd cynllunio. Mae'r tabl yn ffigwr 3.1 yn dangos y nifer ymhob un o'r 11 ardal, a chanlyniad y ceisiadau a benderfynwyd arnynt. Noder efallai y bydd ceisiadau yn mynd i apêl gyda, neu heb, benderfyniad, ac roedd rhai ohonynt dal yn aros am benderfyniad adeg ysgrifennu, felly ciplun mewn amser yw hwn, yn hytrach na chrynodeb o'r ceisiadau a gwblhawyd.

*"Roedd 11 o'r 25 ardal Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLl) yng Nghymru wedi gwneud penderfyniad ynghylch 63 cais Datblygiad Un Blaned ac, hyd yn hyn, mae 39 (62%) ohonynt wedi derbyn caniatâd cynllunio."*

[1] *Traethawd ymchwil PhD gan Brett Sanders, Prifysgol Coventry*

## FFIGWR 3.1 NIFEROEDD A DEILLIANNAU CEISIADAU DUB

*Ffigwr 3.1: Tabl yn dangos cyfanswm niferoedd a deilliannau'r ceisiadau DUB ymhob ardal ACLl hyd at ddiwedd 2021. Noder efallai y bydd ceisiadau yn mynd i apêl gyda, neu heb, benderfyniad ac roedd rhai ohonynt dal yn aros am benderfyniad, neu benderfyniad apêl, felly nid yw'r cyfanswm fesul Awdurdod bob amser yn hafal â chyfanswm y colofnau eraill. Data wedi'i ddarparu'n garedig gan Brett Sanders, Prifysgol Coventry.*

| AWDURDOD LLEOL | CYFANSWM | WEDI'U CYMERADWYO YN LLEOL | WEDI'U GWRTHOD YN LLEOL | CYMERADWY-WYD YN DILYN APÊL | WEDI'U TYNNU'N ÔL/ EU CANSLO |
|---|---|---|---|---|---|
| SIR BENFRO | 19 | **9** | 8 | **3** | 2 |
| SIR GAERFYRDDIN | 14 | **8** | 4 | **2** | 2 |
| APC ARFORDIR PENFRO | 11 | **5** | 5 | **1** | 1 |
| CEREDIGION | 8 | **6** | 2 | **0** | 0 |
| POWYS | 4 | **2** | 1 | **0** | 1 |
| APC BANNAU BRYCHEINIOG | 1 | **1** | 0 | **0** | 0 |
| CAERFFILI | 1 | **1** | 0 | **0** | 0 |
| SIR DDINBYCH | 1 | **1** | 0 | **0** | 0 |
| SIR FYNWY | 1 | **0** | 1 | **0** | 0 |
| PEN-Y-BONT AR OGWR | 1 | **0** | 0 | **0** | 1 |
| CASNEWYDD | 2 | **0** | 1 | **0** | 1 |
| CYFANSWM | 63 | **33** | 22 | **6** | 8 |

Fel y gwelwyd uchod, mae crynhoad o geisiadau DUB yn Ne-Orllewin Cymru, yn Sir Benfro, Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, Sir Gaerfyrddin a Cheredigion. Mae bron pob un o'r ceisiadau am dyddynod un-uned, gydag ond un cais unedau lluosog (Rhiw Las, Sir Gaerfyrddin, a wrthodwyd yn lleol ond a ganiatwyd wedi apêl, gyda chostau, yn 2016).

Mae'r ffigyrau hyn yn dangos bod tua hanner o'r ceisiadau DUB wedi'u caniatau'n uniongyrchol gan yr ACLl (naill ai gan bwyllgor cynllunio neu wedi penderfyniad dirprwyedig gan swyddog) a bod tua thraean wedi'u gwrthod, a'r gweddill naill ai wedi'u tynnu'n ôl neu'n dal i aros penderfyniad. O'r rhai a wrthodwyd, mae tua thraean wedi'u caniatáu ar ôl apêl, ac mae rhai eraill yn dal i aros am ddyfarniad i'w hapêl ar hyn o bryd.

***"Tua hanner o'r ceisiadau DUB wedi'u caniatau'n uniongyrchol gan yr ACLl (naill ai gan bwyllgor cynllunio neu wedi penderfyniad dirprwyedig gan swyddog) a bod tua thraean wedi'u gwrthod, a'r gweddill naill ai wedi'u tynnu'n ôl neu'n dal i aros penderfyniad."***



*Llun gan Natasha Cartwright*



## 3.2 YR AMSER A GYMERIR I BENDERFYNU AR GAIS

Mae'r amser y mae ACLl yn cymryd i benderfynu ar (naill ai caniatáu neu wrthod) geisiadau DUB yn cael ei ddangos yn Ffigwr 3.2. Noder bod y ffigwr ond yn cyfeirio at y rhai sydd wedi derbyn penderfyniad – roedd gan sawl cyngor geisiadau DUB a oedd dal yn aros penderfyniad. Tra bod llawer o amrywiaeth yn y ffigyrau hyn, a bod nifer fechan o geisiadau wedi'i penderfynu o fewn y cyfnod 8-wythnos, mae'r mwyafrif ohonynt yn cymryd tipyn mwy o amser. Er taw ond nifer fechan o bwyntiau data sydd ar gael, mae'n ymddangos bod cyfnod (2010-2016) pan roedd y ceisiadau yn cymryd amser hir i'w prosesu oherwydd taw rhain oedd y ceisiadau DUB cyntaf a oedd wedi'u derbyn gan ACLl, a'r amser a gymerwyd gan y swyddogion i ymgyfarwyddo â'r polisi. Yna gwelwyd cyfnod (2017-2019), pan roedd rhai ceisiadau y cael eu prosesu'n fwy cyflym. Yn ddiweddar (2020-hyd yn hyn), mae'n ymddangos bod y duedd i'r cyfeiriad arall, a bod ceisiadau yn cymryd mwy o amser unwaith eto.

## FFIGWR 3.2 YR AMSER A GYMERIR I BENDERFYNU CEISIADAU DUB


*Ffigwr 3.2: Tabl yn dangos yr amser cyfartalog i benderfynu ar geisiadau DUB, fesul ardal ACLl. Y targed cenedalaethol ar gyfer penderfynu ar geisiadau yw 8 wythnos. Data wedi'i ddarparu'n garedig gan Brett Sanders, Prifysgol Coventry.*

| AWDURDOD LLEOL | CEISIADAU DUB A BENDERFYNWYD | YR AMSER CYFARTALOG A GYMERWYD I DDERBYN PENDERFYNIAD |
|---|---|---|
| **CYFARTALEDD YR HOLL AWDURDODAU CYNLLUNIO LLEOL** | **55** | **68 WYTHNOS** |
| **TARGED CENEDLAETHOL I GYRRAEDD PENDERFYNIAD YNGHYLCH CEISIADAU AM GANIATÂD CYNLLUNIO** | - | **8 WYTHNOS** |
| PEMBROKESHIRE | 17 | 39 WYTHNOS |
| CARMARTHENSHIRE | 12 | 48 WYTHNOS |
| PEMBROKESHIRE COAST NPA | 10 | 31 WYTHNOS |
| CEREDIGION | 8 | 41 WYTHNOS |
| POWYS | 3 | 93 WYTHNOS |
| CAERPHILLY | 1 | 56 WYTHNOS |
| BRECON BEACONS NPA | 1 | 21 WYTHNOS |
| DENBIGHSHIRE | 1 | 107 WYTHNOS |
| MONMOUTHSHIRE | 1 | 181 WYTHNOS |
| NEWPORT | 1 | 65 WYTHNOS |

Yn ychwanegol at yr amser a nodwyd yn Ffigwr 3.2, mae rhai ymgeiswyr llwyddiannus wedi cofnodi profi oedi pellach wedi'r penderfyniad cychwynnol cyn eu bod yn derbyn hysbysiad penderfynu ac yn gallu dechrau'r gwaith datblygu. Mae Ffigwr 3.3 yn dangos y amser a gymerwyd i gadarnhau'r manylion pellach. Mae'r rhain yn amrywio rhwng gwahanol geisiadau a gwahanol ACLl, ond yn gallu cynnwys ceisiadau SDCau (Systemau Draenio Cynaliadwy), cyflwyno cynlluniau rheoli maeth a chwblhau Cytundeb Adran 106 neu Ymgymeriad Unochrog. Nid yw rhai ACLl yn gofyn am unrhywun o'r rhain, a gall ymgeiswyr ddechrau'r gwaith datblygu ar unwaith.



## FFIGWR 3.3 YR AMSER A GYMERIR I GYTUNO AR FANYLION PELLACH AR ÔL CYMERADWYO'R CAIS




*Ffigwr 3.3: Yr amser a gymerwyd i gytuno ar fanylion pellach ar ôl i'r cais gael ei gymeradwyo (misoedd). Tra bod rhai ymgeiswyr llwyddiannus yn gallu dechrau'r gwaith datblygu yn gyflym ar ôl derbyn cymeradwyaeth, roedd eraill, yn enwedig yn fwy diweddar, wedi profi oedi hir tra'n cadarnhau manylion pellach. Mae'r rhai a gymeradwywyd yn fwy diweddar wedi profi oedi hirach.*



## 3.3 CANLYNIADAU'R CEISIADAU

Mae Ffigwr 3.3 yn dangos canlyniad y ceisiadau a benderfynwyd arnynt yn lleol gan benderfyniad swyddog neu bwyllgorau cynllunio. Mae'r penderfyniadau dirprwyedig yn cynnwys nifer fawr o geisiadau a wrthodwyd (58%), a dim ond 20% o'r rhain oedd wedi ennill apêl. Roedd penderfyniadau'r pwyllgorau cynllunio yn cynnwys nifer fwy o geisiadau a gymeradwywyd (76%), ac hefyd cyfradd llawer uwch o gymeradwyo wedi apêl, yn bennaf oherwydd bod pwyllgor cynllunio wedi gwrthod caniatâd yn groes i argymhelliad swyddog i gymeradwyo'r cais.

Hyd yn hyn, mae dau allan o dri achos lle roedd y cynghorwyr wedi mynd yn groes i gyngor swyddog cynllunio i gymeradwyo'r cais wedi llwyddo wedi apêl (mae trydydd yn aros penderfyniad). Mae hyn yn awgrymu y byddai pwyllgorau cynllunio y nelwa ar hyfforddiant pellach er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o ofynion penodol y polisi DUB.

## FFIGWR 3.4 DEILLIANNAU CEISIADAU DUB FESUL Y MATH O HYSBYSIAD

*Ffigwr 3.4: Tabl yn dangos canlyniadau'r penderfyniadau a wnaethwpyd gan swyddogion dirprwyiedig (rhes gyntaf) a gan y pwyllgorau cynllunio (ail rhes). Data wedi'i ddarparu'n garedig gan Brett Sanders, Prifysgol Coventry, sydd hefyd yn meddu ar ddata mwy manwl fesul ACLl, ar gael ar gais. *Roedd dau o'r tri a ganiatawyd wedi apêl, a'r un sy'n aros penderfyniad, wedi'u gwrthod yn groes i argymhelliad y swyddog.*

| | NIFER | CYMERADWY-WYD | GWRTHODWYD | GWRTHODWYD YN GROES I ARGYMHELLI-AD SWYDDOG | CANIATAWYD WEDI APÊL | YN AROS AM BENDERFYNI-AD APÊL |
|---|---|---|---|---|---|---|
| PENDERFYNWYD DRWY AWDURDOD DIRPRWYEDIG | 26 | 11 (42%) | 15 (58%) | - | 3 | 1 |
| PENDERFYNWYD GAN BWYLLGOR CYNLLUNIO | 29 | 22 (76%) | 7 (24%) | 4 | 3* | 1* |

## 3.4 PROFIAD YMGEISWYR O LYWIO'R SYSTEM GYNLLUNIO


Roedd ein harolwg wedi holi preswylwyr DUB ynghylch eu profiadau o'r system gynllunio. Dylid nodi ar unwaith bod tuedd bositif i'n canlyniadau, gan ein bod ond wedi arolygu'r ymgeiswyr llwyddiannus, ac nid yr ymgeiswyr aflwyddiannus. Y prif fater a godwyd oedd yr amser a gymerwyd i gyrraedd penderfyniad, a'r straen emosiynol, corfforol ac ariannol yr oedd hyn yn gosod ar deuluoedd tra'n aros penderfyniad. **Yn ein barn ni, mae'r amser cyfartalog a gymerir i gyrraedd penderfyniad, sef 68 wythnos (16 mis) yn annerbyniol** o hir, yn enwedig yng nghyd-destun targed 8-wythnos. Mae ymgeiswyr DUB yn ymgysylltu â'r system gynllunio yn ddidwyll, yn cael eu hannog i dreulio amser, egni ac arian yn llunio Cynllun Rheoli cynhwysfawr, ac yna'n aml yn gorfod aros am fisoedd a blynyddoedd, heb dderbyn ond ychydig gyfathrebu. Yn y cyfamser, mae ymgeiswyr yn cofnodi bod yr oedi wedi amharu ar eu perthynas personol gyda'r teulu a chymdogion, wedi gwneud y cynlluniau busnes yn llai hyfyw ac wedi achosi problemau ynghylch cofrestru mewn ysgolion lleol, yn ychwanegol at y straen a achoswyd gan yr ansicrwydd.

Mae Ffigwr 3.5 yn dangos cwmwl geiriau a ffurfiwyd o'r holl ymatebion (36) i'n cwestiwn arolwg ynghylch y ffordd y byddai ymgeiswyr yn disgrifio'u profiad o'r broses gynllunio. Mae yma gyfle i wella llesiant ymgeiswyr DUB, ac i ACLl arbed amser ac ymdrech, drwy leihau cymlethdod y broses ymgeisio fel bod modd cyrraedd, yn amlach, y nod o benderfynu cais mewn 8-wythnos. Byddai gwneud hynny hefyd yn gwella hygyrchedd y polisi ar gyfer ystod mwy amrywiol o ymgeiswyr, fel yr ydym yn amlygu yn adran 4.1 ar y pwnc Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant.

Er bod y profiad hwn o'r cais cychwynnol braidd yn negyddol, wedi iddynt dderbyn caniatâd, roedd mwyafrif yr ymgeiswyr (92%) wedi cofnodi perthynas bositif neu niwtral gyda'r ACLl.

***"Mae yma gyfle i wella llesiant ymgeiswyr DUB, ac i ACLl arbed amser ac ymdrech, drwy leihau cymlethdod y broses ymgeisio fel bod modd cyrraedd, yn amlach, y nod o benderfynu cais mewn 8-wythnos."***

**FFIGWR 3.5** PROFIAD YMGEISWYR LLWYDDIANNUS O'R SYSTEM GYNLLUNIO




*Ffigwr 3.5: Cwmwl geiriau yn crynhoi'r profiadau a gofnodwyd gan ymgeiswyr DUB llwyddiannus ("Pa dri gair sy'n disgrifio'ch profiad o'r broses ymgeisio?"). Mae'r rhain yn ddata ansoddol (ymatebion iaith-Saesneg i arolwg) ac felly nid ydynt wedi'u cyfieithu. Cyfanswm o 36 ymateb.*

# **DATRYS YR HERIAU**
# I DDATBLYGIAD UN BLANED

4

*Ein hargymhellion am welliannau i'r polis a'r arfer.*

# DATRYS YR HERIAU I DDATBLYGIAD UN BLANED

4

Gan dynnu ar y dystiolaeth a gyflwynwyd uchod, mae'r adran hon yn ystyried sut y gallai Datblygiad Un Blaned fod yn arf polisi mwy effeithiol i gefnogi datblygu cynaliadwy yng Nghymru, a gwneud argymhellion penodol ynghylch gwelliannau i'r polisi a'r arferion. Yr ydym am ddechrau drwy adolygu ystyriaethau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant sy'n berthnasol i'r polisi DUB, a llunio'n hargymhellion o gwmpas y casgliadau hyn.

## 4.1. CYDRADDOLDEB, AMRYWIAETH A CHYNHWYSIANT (CAC)

Oherwydd y nifer isel o aelwydydd DUB, nid ydym yn gallu cyflwyno ffigyrau monitro amrywiaeth manwl. Serch hynny, yr ydym am gyflwyno'r myfyrdodau canlynol ynghylch ystyriaethau CAC presennol y polisi, ac awgrymiadau ar gyfer gwelliant.

Nid yw'r polisi Datblygiad Un Blaned, o'i natur, yn allgáu unrhywun: mewn egwyddor, mae ar gael i bob preswylydd Cymru. Serch hynny, mae rhai agweddau o'r polisi yn golygu bod grwpiau penodol o bobl yn wynebu rhwystrau.

1. **Yr angen i gynhyrchu Cynllun Rheoli manwl** (mae'r mwyafrif ohonynt yn 50- 100 tudalen o hyd) a bod rhaid i swyddogion cynllunio, pwyllgorau ac ymgynghorwyr allanol graffu arno mewn manylder. Mae hyn yn anodd i ddarpar ymgeiswyr sy'n cael anhawster ysgrifennu, megis y rhai hynny sydd â dyslecsia neu nodweddion niwrowahanol. Mae hefyd yn anodd i bobl nad ydynt yn gyfarwydd â iaith fiwrocratig, megis y rhai o gefndiroedd dosbarth gweithio neu ddifreintiedig, neu a oedd wedi gadael addysg ffurfiol yn gynnar. Felly, mae'r polisi yn fwy hygyrch i'r rhai sy'n meddu ar gefndir cryf mewn addysg ffurfiol. Nid fel hyn y dylai fod; nid oes unrhyw dystiolaeth bod cefndir cryf mewn addysg ffurfiol yn ddangosydd da bod y person hwnnw yn mynd i fyw'n llwyddiannus ar y tir. Er mwyn mynd i'r afael â'r duedd hon, dylid gwneud y gwaith o lunio Cynllun Rheoli DUB yn dasg llai cymhleth, tra'n cadw hyder yn y meysydd allweddol sy'n cael eu hasesu'n drwyadl. Er enghraifft, derbyn profiad blaenorol ym meysydd garddio neu adeiladu fel tystiolaeth o gymhwysedd ymarferol.

2. **Diffyg eglurder ynghylch sut y dylai Cynlluniau Rheoli ddelio ag anabledd, salwch, anaf neu amgylchiadau personol** megis heriau iechyd meddwl, profedigaeth ayyb. Mae'r canllawiau DUB yn datgan bod rhaid diwallu holl feini prawf hanfodol DUB am byth, heb gyfeirio at iechyd neu amgylchiadau personol. Felly mae'r polisi yn fwy hygyrch i bobl nad ydynt yn anabl, a'r rhai sy'n meddu ar amgylchiadau personol mwy ffafriol. Tra y byddai gofyn i bobl anabl gynhyrchu Cynllun Rheoli sy'n cydnabod natur y cyfyngiadau ar unrhyw weithgareddau ar y safle, dylid ystyried cynhwysiant yn fwy gweithredol wrth asesu'r meini prawf DUB, gan gyfeirio'n benodol at y Deddf Cydraddoldeb (2010) a fframweithiau CAC mwy diweddar. Gall unrhyw breswylydd DUB ddioddef anabledd ar unrhyw adeg, felly mae hyn yn flaenoriaeth i DUBau newydd ac i'r preswylwyr cyfredol. Er enghraifft, byddai modd blaenoriaethu'r gofynion mewn ffordd mwy eglur, gan osod yr Ôl-troed Ecolegol a'r buddion ecolegol yn y canol.

3. **Y gost.** Mae'r gost ariannol i'r ymgeisydd DUB yn cynnwys cost y tir a'r seilwaith, cost y cais cynllunio ac unrhyw ymgynghori perthnasol (megis caniatâd SDCau, costau cyfreithiol ac yn y blaen), cost adeiladu tŷ a busnes a chostau byw tra'n aros am benderfyniad ynghylch y cais. Mae'r rhain yn golygu degau os nad cannoedd o filoedd o bunnoedd. Nid ydym wedi arolygu'r costau mewn manylder am resymau preifatrwydd, ond mae hyn yn aml yn cael ei nodi'n bryder mawr gan ddarpar ymgeiswyr. O ganlyniad, mae'r polisi yn fwy hygyrch i'r rhai sy'n meddu ar gyfalaf sylweddol. sy'n eu galluogi i brynu mewn i brosiect. Mae'n bosibl y byddai modd gwella hyn drwy leihau'r gofynion am adroddiadau gan ymgynghorwyr allanol, neu leihau'r amser y mae'n cymryd i asesu ceisiadau am ganiatâd cynllunio. Yn fwy arwyddocaol, byddai'n bosibl lleihau'r rhwystr hwn drwy annog ceisiadau aml-uned gyda threfniadau deiliadaeth amgen (lesddaliad neu rentu-i-brynu), neu drwy drefnu bod tir ar gynnig gan gynghorau lleol ar gyfer prosiectau DUB, yn debyg i denantiaeth fferm.

4. **Diffyg ystyriaeth o'r iaith Gymraeg.** Nid yw'r polisi DUB yn nodi unrhyw anghenion o ran ei effaith ar yr iaith Gymraeg. Mae ein harolwg yn awgrymu bod DUBau mewn ardaloedd Cymraeg eu hiaith yn cael effaith bositif, gan ddangos llawer o ymrwymiad tuag at yr iaith Gymraeg, dysgu'r iaith ac addysg cyfrwng-Cymraeg. Serch hynny, mae dal amheuaeth ynghylch DUB mewn cymunedau Cymraeg eu hiaith. Mae'r canfyddiad hwn yn lleihau atyniad unigolion Cymraeg eu hiaith at y polisi. Er mwyn cywiro'r anghydbwysedd hwn dylid cynnig mwy o anogaeth penodol drwy, er enghraifft, rhestru'r iaith Gymraeg, dysgu Cymraeg gweithredol ac addysg cyfrwng-Cymraeg fel meini prawf cyfrannol DUB.

5. **Yr amser a gymerir i asesu ceisiadau.** Mae ein harolwg wedi datgelu taw yr amser cyfartalog a gymerir i gymeradwyo cais yw 16 mis, a bod sawl un yn cymryd dros ddwy flynedd. Mae hyn yn annerbyniol, o ystyried taw'r amser targed ar gyfer asesu ceisiadau cynllunio yw 8 wythnos. Mae sawl goblygiad yn deillio o'r oedi yma, a'r mwyaf yw'r gost ariannol ac emosiynol o fyw gydag ansicrwydd am gyfnod mor hir. Mae ymgeiswyr yn buddsoddi llawer o waith yn eu ceisiadau ac mae eu bywydau ar stop tra eu bod yn aros am benderfyniad. Nid oes unrhyw reswm bod hi'n cymryd y fath amser hir i wneud penderfyniad. Unwaith eto, mae hyn yn golygu bod y polisi yn llai hygyrch i'r rhai hynny sydd â llai o arian cyfalaf, sy'n dod o gefndir dosbarth gweithio neu difreintiedig, neu sydd yn gyfrifol am blant/oedolion dibynnol yn y cartref. Yr ydym yn nodi, yn gyffredinol, taw'r ceisiadau sy'n cymryd yr amser hiraf i'w penderfynu yw'r rhai nad oes rheswm amlwg dros eu gwrthod (mae'r rhai sy'n arddangos diffygion clir yn cael eu gwrthod yn ddi-oed). Yr ydym am argymell y dylai Llywodraeth Cymru adolygu gweithdrefnau ACLl o ran asesu ceisiadau DUB, a darparu canllawiau statudol newydd, gyda'r nod o osgoi oedi hir, sydd yn feichus ac yn achosi straen i'r ymgeisydd a'r adran gynllunio fel ei gilydd. Mae'n gwbl glir bod llawer o adrannau cynllunio o dan straen ar hyn o bryd ac, er nad oes modd osgoi peth oedi, mae'r sefyllfa bresennol yn rhwystro rhai o'r bobl hynny a fyddai'n elwa fwyaf rhag cael mynediad at y polisi. Bydd ein hargymhelliad cyffredinol i leihau cymhlethdod ceisiadau DUB hefyd yn gwneud y broses asesu'n gyflymach.

6. **Diffyg preifatrwydd personol.** Gall y Cynllun Rheoli DUB a'r adroddiadau blynyddol dilynol gynnwys llawer o fanylion personol, ac nid oes canllawiau statudol ar gael parthed â phreifatrwydd yr wybodaeth yma. Fe allai hyn wneud y polisi yn llai atyniadol i unrhywun y mae eu ffordd o fyw yn anghonfensiynol mewn unrhyw ffordd, sydd ddim am osod eu manylion personol gerbron eraill, sydd â chymdogion busneslyd neu ymosodol a fyddai, o bosib, yn gwneud defnydd o'r wybodaeth hynny, neu sydd wedi dioddef stelcio, brawychu neu drais yn y cartref. Yr ydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gydweithio gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ac Awdurdodau Cynllunio Lleol i ddarparu datganiad preifatrwydd clir sy'n datgan pwy fydd yn cael mynediad at yr wybodaeth a gyflwynir gan DUBau. Yr ydym hefyd, fel rhan o'r diweddariad o'r Canllaw Ymarfer, yn argymell y dylid, gydag ystyriaethau CAC mewn golwg, adolygu'r gofynion cofnodi, ac ond gofyn am yr isafswm o wybodaeth sensitif. Dylai'r ymgeiswyr ystyried nodi bod gwybodaeth penodol yn gyfrinachol, lle bo hynny'n briodol.

7. Mae'r holl ystyriaethau uchod hefyd yn arwain at ddiffyg mynediad i ymgeiswyr du ac o leiafrifoedd ethnig, sydd eisoes yn wynebu anfantais oherwydd diffyg mynediad at ardaloedd gwledig a chefn gwlad. Byddai'r awgrymiadau uchod er gwelliant yn gwella hygyrchedd ar gyfer y cymunedau hyn hefyd.

8. Er nad ydym wedi casglu data manwl, mae'r ceisiadau a'r cymeradwyaethau, o ystyried ymgeiswyr gwryw a benyw, yn ymddangos yn gytbwys. Codwyd peth consyrn ynghylch awdurdodau yn cwestiynu gallu ymgeiswyr benyw unigol i weithredu cynllun ar y tir. Nid oes gennym dystiolaeth am ymgeiswyr LHDT+, anneuaidd neu drawsryweddol, ond credwn bod rhai o'r ystyriaethau uchod hefyd yn achosi diffyg hygyrchedd i'r lleiafrifoedd hyn hefyd, a bydd yr argymhellion uchod yn gwella'r sefyllfa.

9. Mae diffyg amrywiaeth yn nghefn gwlad yn fwy o gonsyrn cyffredinol, a chefnogwn ymdrechion i fynd i'r afael â hyn.

   Mae natur anodd y polisi i ddarpar ymgeiswyr yn amlwg o'r ffaith taw dim ond ychydig ddwsinau o geisiadau am ganiatâd cynllunio Datblygiad Un Blaned sydd wedi'u cyflwyno yng Nghymru gyfan mewn mwy na'r 10 mlynedd sydd wedi mynd heibio ers cyflwyno'r polisi. Pe byddai'r argymhellion yn cael eu mabwysiadu'n gyfangwbl, byddwn yn disgwyl gweld carfan fwy, a mwy amrywiol, yn cyflwyno ceisiadau am safleoedd Datblygiad Un Blaned.



Llun gan Tao Wimbush

## 4.2 MYND I'R AFAEL Â PHRYDERON AWDURDODAU CYNLLUNIO LLEOL

Mae'r Cyngor Un Blaned wedi lletya cyrsiau hyfforddiant lluosog ynghylch Datblygiad Un Blaned ar gyfer swyddogion cynllunio a gweithwyr proffesiynol, yn fwyaf diweddar cwrs arlein a gynhaliwyd ym mis Hydref 2020, ac a fynychwyd gan swyddogion cynllunio o Sir Gaerfyrddin, Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Castell-nedd Port Talbot, Abertawe, Powys a Sir Ddinbych, yn ogystal â thri ymgynghorydd annibynnol. Yr ydym hefyd wedi darparu cyngor anffurfiol i gynllunwyr, ymgynghorwyr cynllunio ac eraill sy'n ymwneud â'r broses gynllunio, ac wedi ymateb i ddatganiadau cyhoeddus ynghylch DUB gan Gynghorwyr.

Mae'r pryderon a godir gan swyddogion cynllunio ynghylch y polisi DUB yn syrthio'n gyffredinol i'r categorïau canlynol, er nad yw pob un ohonynt yn berthnasol i bob adran gynllunio:

- **Pryderon ynghylch llwyth gwaith,** o ystyried cyllidebau llai yr adrannau a'r wasgfa ychwanegol ar amser y swyddogion sydd wedi digwydd yn ystod y pandemig, gyda rhai yn gweithio o'r cartrefi neu'n gweithio oriau llai, ac eraill wedi'u hadleoli i ymateb i'r pandemig. Nid yw hyn yn uniongyrchol gysylltiedig â DUB ond, yn amlwg, yn creu problemau.

- **Diffyg arbenigedd.** Mae Cynllun Rheoli DUB yn rhestru llawer o feysydd gwahanol, sy'n cynnwys ynni, dŵr, gwastraff, cynhyrchu bwyd, Ôl-troed Ecolegol, bioamrywiaeth, adeiladau di-garbon a chynllun busnes. Mae Datblygiad Un Blaned yn aml yn defnyddio dulliau ansafonol i gwrdd â'r gofynion hyn. Mae llawer o swyddogion yn teimlo nad oes ganddynt yr arfau i asesu'r holl fanylion. Roedd tuedd i ganolbwyntio ar y cynllun busnes yn hytrach na'r elfennau eraill, gan taw dyma sydd fwyaf cyfarwydd iddynt. Mae swyddogion yn cyfeirio at Anheddau Mentrau Gwledig sy'n cael eu harfarnu yn erbyn ffigyrau safonol megis Llawlyfr John Nix, ac yn deall bod DUB yn wahanol ond heb syniad clir ymhle y dylent ddechrau. Mae rhai Awdurdodau Cynllunio Lleol wedi dechrau allanoli penderfyniadau DUB i ymgynghorwyr allanol. Tra y byddai hyn yn weithred resymol pe byddai'r rhwystr yn codi o ddiffyg amser y swyddog yn hytrach nag arian, yr ydym yn nodi y dylai fod, mewn egwyddor, yn bosibl bod ceisiadau DUB yn cael eu penderfynu yn fewnol, a byddai lleihau cymhlethdod y broes ymgeisio yn cefnogi hynny.

- **Diffyg eglurder ynghylch y cyfrifoldeb i adrodd yn ôl yn barhaus,** a gorfodi mewn achos methiant. Roedd swyddogion wedi cyfeirio at y "cyfnod prawf" pum mlynedd fel backstop defnyddiol i'r asesiad cychwynnol, ond roeddent wedi cwestiynu sut y byddai'r broses gofnodi yn adnabod, a gorfodi safleoedd a oedd yn methu cwrdd â'r meini prawf. Nid oeddent yn ystyried hi'n gynaliadwy y bod rhaid iddynt astudio adroddiadau o safleoedd DUB eraill a ganiatawyd yn flaenorol yn ychwanegol at eu llwyth gwath. Mae cofnodi'n cael ei drafod ymhellach yn adran 4.4 isod.

- **Diffyg dealltwriaeth yr aelodau etholedig parthed â pholisi a gofynion DUB.** Gobeithiwn y bydd yr adroddiad presennol yn cyfrannu at well ddealltwriaeth o'r gofynion a'r cyfraniadau y mae safleoedd DUB yn gwneud i flaenoriaethau lleol. Yr ydym yn croesawu ymgysylltiad pellach gan aelodau etholedig ynghylch y polisi DUB, a'r ffordd y gallai gael ei weithredu mewn modd mwy effeithiol. Pan fydd ceisiadau yn cael eu gwrthod heb resymau dilys, nodwn y mae'n bosibl y bydd apeliadau yn dod gyda cheisiadau am gostau, ac felly'n gwastraffu adnoddau'r ymgeisydd a'r cyngor fel ei gilydd.

## 4.3 LLEIHAU'R AMSER A GYMERIR I BENDERFYNU CEISIADAU

Argymhellwn uchod y dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag awdurdodau lleol i adolygu gweithdrefnau Awdurdodau Cynlluio Lleol pan yn asesu ceisiadau DUB, yn cynnwys argymhellion trefniadol yn y canllaw statudol newydd, a bod Llywodraeth Cymru yn cynnig cyllid ychwanegol, cymorth a dargedir neu hyfforddiant i ACLlau er mwyn gwella'u gallu i asesu ceisiadau DUB. Ond mae'n bosibl mynd i'r afael ag oedi arall yn y system drwy weithrediadau a dargedir.

Mewn rhai achosion sydd wedi derbyn caniatâd, mae wedi cymryd amser hir (misedd a blynyddoedd) i gytuno ar ffurf geiriau ar gyfer Cytundeb Adran 106. Mae geiriad y ceisiadau hyn yn gwbl wahanol rhwng safleoedd, hyd yn oed yn yr un ardal awdurdod lleol. Cynigiwn dau awgrym amgen yma. Y cyntaf yw nodi nad oedd angen Cytundeb Adran 106 gan rai ceisiadau DUB a dderbyniodd ganiatâd, ond bod yr holl faterion wedi'u datrys gan ddefnyddio amodau cynllunio. Argymhellwn bod y dull hwn yn cael ei ddefnyddio'n ehangach. Fel arall, os y teimlir bod angen Adran 106, yna byddai darparu templad Cytundeb Adran 106 yn fuddiol i bawb, ac yn lleihau'r amser a'r gost i'r ymgeiswyr a'r ACLl, tra'n sicrhau bod y gofynion yn cael eu cymhwyso yn gyson. Mae'r Cyngor Un Blaned wedi llunio ffurf ar eiriau awgrymedig ar gyfer templad, yn seiliedig ar geisiadau a gymeradwywyd yn ddiweddar.

Gofynnwyd hefyd i rai ymgeiswyr DUB ddarparu manylion pellach ar ôl bod y caniatâd cynllunio wedi ei gymeradwyo, ynghylch materion nad ydynt ond o berthnasedd ymylol i DUB, a sy'n gallu golygu costau ychwanegol sylweddol. Mae darparu manylion draeniad yn unol â'r gofyn SDCau, er enghraifft, yn ailadrodd,, ar gost uwch, ddyluniad sydd eisoes wedi'i ddisgrifio yn y mwyafrif o Gynlluniau Rheoli DUB. Yn yr un modd, byddai cynllun rheoli maeth ar y raddfa a ddisgwylir gan Gyfoeth Naturiol Cymru am unedau da byw mawr yn anghymesur ar gyfer y mwyafrif o aneddau DUB, sydd eisoes wedi manylu ynghylch eu ffordd o reoli eu gwastraff aelwyd minimol. Os nad yw hi'n bosibl rhyddhau DUB o'r gofyn, yna **byddai darparu templad ar gyfer rheoli SDCau a maeth ar raddfa ddomestig yn fuddiol i bawb.** Mae'r Cyngor Un Blaned yn bwriadu drafftio templadau addas, a'u gwneud ar gael i'r cyhoedd.

> ***"Darparu templad Cytundeb Adran 106 yn fuddiol i bawb, ac yn lleihau'r amser a'r gost i'r ymgeiswyr a'r ACLl, tra'n sicrhau bod y gofynion yn cael eu cymhwyso yn gyson."***



## 4.4 EGLURO'R GOFYNION YNGHYLCH COFNODI PARHAUS

Mae'r Cyngor Un Blaned yn ystyried y broses gofnodi i fod yn rhan annatod o Ddatblygiad Un Blaned er mwyn:

- sicrhau ymrwymiad at egwyddorion DUB, gan gynnwys yr Ôl-troed Ecolegol, ac i
- ymchwilio'r gwerth o arddangos cyfraniad DUBau i'w hardaloedd lleol, Cymru a'r byd.

*"Pan y mae caniatâd cynllunio yn cael ei ddyfarnu, dylai'r amodau gynnwys datganiad eglur ynghylch ffurf ac amseriad yr holl ofynion adrodd yn ôl."*



Mae gofyn bod pob DUB yn cyflwyno adroddiad blynyddol. Mae'n ddiweddariad blynyddol ynghylch cynnydd a hunan-asesir a, fel arfer, bydd y fformat yn dilyn y templad a ddarparwyd yn y cynllun rheoli. Nid yw'r arferol bod naill ai swyddogion cynllunio neu swyddog gorfodi yn gwirio, yn flynyddol, bod datblygiad yn cydymffurfio, mewn manylder, â phob amod a osodwyd arno, ac nid ydym yn gweld unrhyw reswm paham y dylai Datblygiad Un Blaned gael ei drin yn wahanol neu wynebu baich ychwanegol. Serch hynny, pan fydd yr adroddiadau blynyddol yn cael eu derbyn, disgwyliwn eu bod yn cael eu gwirio i sicrau eu bod yn cydymffurfio â'r fformat a gytunwyd arno pan y roddwyd y caniatâd cynllunio, a bod y DUB yn derbyn cydnabyddiaeth o hyn drwy ebost. Os y codir pryderon ynghylch perfformiad DUB ar unrhyw adeg, yna byddai'r adroddiadau a gyflwynwyd yn ffurfio sail i archwiliad mwy trylwyr. Pan y mae caniatâd cynllunio yn cael ei ddyfarnu, dylai'r amodau gynnwys datganiad eglur ynghylch ffurf ac amseriad yr holl ofynion adrodd yn ôl.

Mae'r Cyngor Un Blaned wedi bod yn casglu data cofnodi o safleoedd DUB ar gyfer yr adroddiad hwn, ac yn argymell y gellid defnyddio templad minimol data meintiol i gasglu'r wybodaeth sylfaenol yn flynyddol mewn fformat statudol yn flynyddol, gydag ardoddiad mwy manwl yn dal y sefyllfa gyffredinol adeg Blwyddyn 5, neu os y codir bryderon. Yn absenoldeb adnodd cenedlaethol, mae'r Cyngor Un Blaned yn archwilio'r posibilrwydd o gynnal bas-data i'w ddefnyddio at waith ymchwil, cefnogi ceisiadau DUB eraill, arddangos llwyddiant DUB yn erbyn amcanion cenedlaethol ac hyrwyddo dadansoddiad mwy cyson o'r gofynion cofnodi. Mae'r data meintiol ac ansoddol a gynhwysir yn yr adroddiadau DUB o werth ymchwil mawr. Gwahoddwn fyfyrwyr neu gydweithredwyr sydd â diddordeb i wneud defnydd o'r wybpdaeth.
Mae cyfrinachedd y data personol a gynhwysir mewn adroddiadau wedi'i drafod yng nghyd-destun Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (CAC, adran 4.1) uchod.

## 4.5 DIWEDDARU'R CANLLAW YMARFER

Cyhoeddwyd y Canllaw Ymarfer DUB yn 2012, ac mae ei Feini Prawf Hanfodol yn dal i fod yn sail i gynhyrchiad ac asesiad Cynlluniau Rheoli DUB. Yr ydym yn cytuno, yn gyffredinol, â bwriad a gweithrediad y Canllaw. Mae ein hawgrymiadau am welliant yn perthyn i'r drafodaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (CAC) uchod, ac i ambell faes penodol lle y mae profiad DUB wedi amlygu problem neu amwysedd.

Yn gyffredinol, ein hargymhelliad o ran CAC yw y dylai'r Cynllun Rheoli a'r broses ymgeisio a monitro gael eu symleiddio rhywfaint. Argymhellwn cadw llymder meysydd megis yr Ôl-troed Ecolegol, ond annog ymgeiswyr i ddefnyddio'u geiriau eu hunain yn hytrach nag arddull ffurfiol neu broffesiynol, caniatáu profiad blaenorol fel tystiolaeth yn hytrach na disgwyl gweld rhifau llyfrau, ac ystyried anghenion ymgeiswyr posibl sydd yn abl mewn gwahanol ffyrdd.

Yr egwyddor yw derbyn bod ymgeiswyr DUB o gefndir llai breintiedig neu sy'n wynebu heriau penodol efallai o leiaf mor alluog a'r rhai hynny sydd wedi'u haddysgu'n dda neu sy'n gyfarwydd ag iaith broffesiynol. Am yr un rhesymau, byddai'n fuddiol disgwyl bod rhai datrysiadau'n gyffredin rhwng gwahanol safleoedd – er enghraifft, does dim angen i bawb ail-ddyfeisio system gompostio – a disgwyl manylion personol dim ond ar gyfer agweddau safle-benodol, megis y cynllun busnes. Byddai hyn yn debygol o arwain at Gynlluniau Rheoli byrrach, er y dylent ddilyn yr un amlinelliad. Pan fydd Canllaw Ymarfer newydd yn cael ei gomisiynu, dylai'r ffrâm gyfeirio gynnwys CAC, y Ddeddf Cydraddoldeb (2010) ac ymgynghori gyda darpar ymgeiswyr DUB sy'n abl mewn gwahanol ffyrdd, gan gynnwys pobl anabl ac o amrywiol gefndiroedd.

---

Ers 2012, mae dysgu o brofiad DUB wedi adnabod nifer fach o feysydd lle y mae diffyg eglurder, ac y gellid eu gwella drwy ddiweddaru'r canllaw.

1. Ni roddir sylw pendodol i **fwyd anifeiliaid.** Dylid cyflwyno peth arweiniad, er enghraifft i osgoi caniatáu incwm "o'r tir" a ddaw o anifeiliaid sy'n cael eu bwydo ar fwyd a brynwyd.

2. Mae **cyfrifo'r Isafswm Anghenion** yn profi'n ddryslyd i lawer, yn enwedig y cyfraniad costau bwyd. Dylid ystyried os oes modd symleiddio hyn, er mwyn gwella trylowedd a chysondeb y cofnodi.


3. Oherwydd y lleihad mewn **dwysedd carbon trydan o'r grid** dros y degawd diwethaf, efallai ei bod yn werth egluro nad yw cysylltiadau gyda'r grid yn cael eu hanghefnogi os taw dyma'r opsiwn mwyaf cynaliadwy, a chyn belled ag y mae'r aelwyd yn gyfranwr net at y grid,

4. Mae'r **effeithiau ar fioamrywiaeth,** yn bositif ac yn negyddol, yn anodd ofnadwy i'w mesur. Byddai canllawiau penodol ynghylch y mathau o dystiolaeth sydd eu hangen yn fuddiol; er enghraifft, os bydd ecolegydd yn gwneud argymhellion ar gyfer rheoli ardal, yna y dylid, yn gyffredinol, dilyn a chofnodi'r rhain.

5. Canllaw ynghylch gwneud **lwfans am amgylchiadau** personol megis anabledd, salwch, anaf neu brofedigaeth. Mae sawl DUB wedi cofnodi effaith negyddol oherwydd y pandemig Covid, ac wedi teimlo pwysau'r gofynion DUB yn gryf ar adeg anodd.

6. Rhywfaint o wybodaeth ynghylch **yr agwedd at gyfnodau newidiol bywyd,** er enghraifft heneiddio ac "ymddeol", neu edrych ar ôl plant bach neu berthnasau oedrannus. Ar hyn o bryd, mae'r holl ofynion yn berthnasol am byth, ac mae ffocws rhagosodol ar yr agweddau mwy mesuradwy megis cynhyrchiant busnes. Gellid, er enghraifft, egluro'n benodol bod yr ôl-troed a'r gwerth ecolegol/bioamrywiaeth yn fwy o flaenoriaeth canolog i DUB na chynhyrchiant economaidd, a gallai hyn ganiatáu i bobl "hanner-ymddeol" o ochr fusnes y DUB ar adeg briodol yn eu bywyd, tra'n cynnal gweddill ei gyfraniadau a gofynion. Byddai diweddariad i'r Canllaw Ymarfer yn gallu chwilio am ddatrysiadau creadigol i'r her hon.

Byddai Canllaw Ymarfer wedi'i ddiweddaru hefyd yn manteisio ar y cyfle i osod DUB yn nghyd-destun newidiol yr argyfyngau hinsawdd ac ecolegol, y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, cefnogi ffermydd wedi Brexit, yr argyfwng costau byw, cefnogi tai newydd yng nghefn gwlad Cymru a chefnogi'r iaith Gymraeg ac adferiad economaidd yn sgil y pandemig Covid-19. Fel mae ein hadolygiad o ddata DUB wedi dangos, mae'r polisi nid yn unig yn darparu newidiadau ar lefel safle ac aelwyd, ond yn gweithredu fel catalydd ac ysbrydoliaeth am newid gwledig ehangach, er bod hwnnw, hyd yn hyn, ar raddfa fechan iawn.



Blaenoriaeth arall am Ganllaw Ymarfer wedi'i ddiweddaru byddai defnyddio delweddau mwy cynhwysol, yn tynnu ar safleoedd DUB sydd eisoes yn bodoli (nad oeddent yn bodoli adeg cyhoeddi'r Canllaw cyntaf) a datblygiadau eraill bach eu heffaith, er mwyn cynrychioli ystod o bobl, aelwydydd, mathau o aneddau a mentrau.

*"Ymgeiswyr DUB o gefndir llai breintiedig neu sy'n wynebu heriau penodol efallai o leiaf mor alluog a'r rhai hynny sydd wedi'u haddysgu'n dda neu sy'n gyfarwydd ag iaith broffesiynol."*

## 4.6 DIWEDDARU'R GYFRIFIANNELL ÔL-TROED ECOLEGOL

**Mae angen diweddaru'r Gyfrifiannell Ôl-troed Carbon.** Taenlen Excel yw hon, a chafodd ei chreu yn 2012 i gyd-fynd â'r Canllaw Ymarfer. Mae dau ddiffyg sylfaenol yr awgrymwn yn byddai modd eu datrys yn hawdd mewn fersiwn newydd, a hynny heb gynnal gwaith ymchwil sylweddol ychwanegol:

1. Dylid cynnwys **cywiriad am chwyddiant** cynhyrchion a gwasanaethau. Mae angen gwneud hyn ar frys yn 2021-22 o ganlyniad i'r lefelau uchel o chwyddiant sydd ohoni ar hyn o bryd. Gan bod llawer agwedd ar EFA yn seiliedig ar ôl-troed y bunt a wariwyd, os bydd yr un fasged nwyddau yn ddeg y cant yn ddrutach, yna y bydd yn ymddangos bod ganddynt ôl-troed ecolegol mwy o faint. Byddai cywiriad sylfaenol yn gallu cywiro pob pris o tua'r un ffactor chwyddiant.

2. **Ychwanegu categori ar gyfer y bwyd a brynwyd oddiwrth dyfwyr lleol eraill.** Nid yw'r ffigyrau ôl-troed yn gwahaniaethu rhwng punt a wariwyd ar fwyd rhatach a mewnforiwyd, ac a brynwyd mewn archfarchnad, a phunt a wariwyd ar fwyd drutach, ond llai ei effaith a brynwyd o ffynhonnell leol. Mae DUBau yn aml yn blaenoriaethu prynu bwyd lleol, organig, tymhorol er mwyn lleihau eu heffaith ecolegol ond, gan eu bod yn talu mwy amdano, mae'n ymddangos fel ôl-troed ecolegol uwch yn eu cofnodion. Mae hwn yn gymhelliad gwrthnysig y dylid ei gywiro.

---

Pe byddai'r capasiti i gynnal mwy o ymchwil sylfaenol yn bodoli, byddai diweddariad mwy trylwyr yn gwirio pris unigol a newidiadau effaith gwahanol gynnyrch a gwasanaethau er mwyn adlewyrchu, er enghraifft, gwahaniaeth mewn chwyddiant ar draws categorïau neu'r newid mewn dwysedd carbon trydan o'r grid, ac yn darparu meincnodau newydd ar gyfer ôl-troed cyfartalog Cymru (mae'r data diweddaraf sydd ar gael yn dyddio o 2011) ac ôl-troed "Un Blaned".

## 4.7 ARCHWILIO DULLIAU ERAILL O DUB

Hyd yn hyn, mae'r ceisiadau Datblygiad Un Blaned wedi cynnwys, bron yn ddieithriad, datblygiadau un-aelwyd sy'n ymdebygu i dyddyn traddodiadol.Yr eithriad yw Rhiw Las yng Nghorllewin Sir Gaerfyrddin, sef cais cydlynol am bedwar DUB un-aelwyd ar bwys ei gilydd, a sy'n cynhyrchu adroddiadau unigol ac yn ymddwyn fel unedau ar wahan, er eu bod yn rhannu peth seilwaith.

Serch hynn, mae'r Cyngor Un Blaned wedi nodi'n gyson bod hawl llunio DUBau ar ffurf gwahanol, a bod hi'n bosibl gwneud hyn o fewn fframwaith y polisi. Hoffwn weld ystod mwy amrywiol o geisiadau Datblygiad Un Blaned yn cynnwys trefniadau fel a ganlyn:

- DUB aml-uned yn rhannu mwy o seilwaith, gan gynnwys gweithleoedd.
- DUB aml-uned yn cynnwys trefniadau tenantiaeth amgen megis lesddaliad neu rhentu-i-brynu ar gyfer y rhai nad ydynt yn gallu fforddio prynu llain.
- DUB aml-uned sy'n cymryd ymagwedd gymunedol at ddiwallu anghenion.
- DUB a berchnogir gan fusnes ar y tir yn hytrach nag unigolyn, megis busnes Amaethu a Gefnogir gan y Gymuned, yn darparu llety ar ffurf tenantiaeth flynyddol i dyfwr ar y safle.
- DUB fel rhan o arallgyfeirio fferm fwy confensiynol, lle y mae busnes ar y tir o bosi eisoes yn bodoli.

Mae'r Cyngor Un Blaned yn cefnogi sefydliadau megis yr Ecological Land Cooperative, Regenerative Settlement, a grwpiau eraill sydd wrthi'n gweithio ar fodelau newydd ar gyfer Datblygiad Un Blaned yng Nghymru a thu hwnt.

Wrth i'r polisi esblygu ymhellach, hoffwn weld mwy o arlliw pan yn ystyried "Cefn Gwlad, y tu hwnt i ddiffiniad arferol ffiniau anheddiad. Er engraifft, gallai Datblygiad Un Blaned o fewn pellter cerdded/beicio o anheddiad presennol fod yn gyfle i gyflenwi bwyd, gwsanaethau a chyfleoedd lleol gydag ôl-troed arbennig o isel, ac efallai y byddai'n gosod mwy o bwyslais ar gyfraniadau cymunedol yn hytrach nag ar hunangynhaliaeth unigol; efallai y byddai DUBau sy'n meddu ar gysylltiadau trafnidiaeth llai amlwg yn parhau gyda'r ffocws cyfredol o ddiwallu eu hangenion bwyd ar y safle.

Ac mae wastad cyfle i ddatblygwyr gydweithio gydag Awdurdodau Cynllunio Lleol i ddarganfod datrysiadau creadigol i gwrdd ag anghenion a blaenoriaethau lleol. Dylai ymagwedd "Un Blaned" lawn neu rannol at unrhyw ddatblygiad newydd fod yn agwedd bositif, o ystyried y blaenoriaethau o fynd i'r afael â newid hinsawdd, gwella cynefinoedd ar gyfer natur a darparu cyfleoedd economaidd cynaliadwy.

> ***"Hoffwn weld ystod mwy amrywiol o geisiadau Datblygiad Un Blaned..."***

## 4.8 MYND I'R AFAEL Â'R MYTHAU A'R CAMDYBIAETHAU

- Nid yw DUB yn gofyn am hunangynhaliaeth
- Nid yw DUB yn gofyn am dystiolaeth o'r angen i fyw ar y safle drwy'r amser
- Gall DUB ddefnyddio adnoddau modern tra eu bod yn cadw at Ôl-troed Datblygiad Un Blaned
- Caniateir incwm allanol, ar yr amod bod yr incwm o'r tir yn cwrdd â'r gofynion
- Rhaid i anheddau DUB gwrdd â'r un Rheoliadau Adeiladu ag adeiladau eraill
- Cyhyd ag eu bod yn dal i gwrdd â'r gofynion DUB, mae modd uwchraddio Cynlluniau Rheoli DUB er mwyn ystyried newidiadau mewn amgylchiadau
- Mae'n amod cyfreithiol bod DUB yn unig breswylfan i'w deiliaid

# BETH ALL DATBLYGIAD UN BLANED WNEUD AR RAN CENEDLAETHAU'R DYFODOL YNG NGHYMRU?

5

*Rhagolygon parhau i weld buddion integredig DUB dros y deg mlynedd nesaf.*



Llun gan Daisy Bee

# BETH ALL DATBLYGIAD UN BLANED WNEUD AR RAN CENEDLAETHAU'R DYFODOL YNG NGHYMRU?

5

Mewn ffordd, mae'r deg mlynedd diwethaf wedi bod yn "astudiaeth beilot" o'r cyfraniad y gall Datblygiad Un Blaned wneud i gymunedau gwledig a datblygiad cynaliadwy Cymru. Nawr bod canlyniadau'r astudiaeth beilot hwnnw ar gael, maen nhw'n sail tystiolaeth ar gyfer y camau nesaf.

Mae DUB yn cyfrannu mewn lluosog ffyrdd. Mae ein tystiolaeth yn dangos bod Datblygiad Un Blaned yn helpu Cymru gyflawni'r saith nod a gynhwysir yn y Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol (2015):

## Llewyrchus

Mae busnesau DUB, fel arfer heb budd unrhyw gymhorthdal, yn cynhyrchu incwm o dir amaethyddol ymylol. Maen nhw'n arloeswyr carbon isel, sy'n arddangos arweinyddiaeth lleol a chenedlaethol mewn arferion cynaliadwy, yn cynnig cyfleoedd am gyflogaeth ac yn cefnogi datblygiad sgiliau carbon isel ar gyfer economi "Sero Net".

## Cydnerth

Mae safleoedd DUB yn gysylltiedig â'r economi leol a'r ecosystem leol. Maen nhw'n darparu swyddi, adloniant, bwyd, cynefinoedd, atafaelu carbon a phrydferthwch. Felly maen nhw'n gwella gwytnwch cymdeithasol, economaidd ac ecolegol eu cymunedau.

## Iachach

Mae preswylwyr DUB yn treulio eu hamser yn natur, yn garddio ac yn edrych ar ôl anifeiliaid, gweithgareddau sy'n dda ar gyfer iechyd corfforol ac iechyd meddwl. Maen nhw'n cynnig y cyfleoedd hyn i eraill ar ffurfiau gwahanol gan gynnwys teithiau tywys, mynediad at lwybrau troed, cyfleoedd am gyflogaeth, gwirfoddoli, rhannu sgiliau a Diwrnodau Agored. Mae preswylwyr DUB hefyd yn defnyddio teithio llesol gan gynnwys cerdded, beicio, beiciau trydan ac yn y blaen, ac yn dewis trafnidiaeth gyhoeddus yn hytrach na defnyddio ceir preifat.

## Mwy Cyfartal

Nod y cysyniad "Un Blaned" yw defnyddio rhan deg o adnoddau'r blaned. Mae Cymru fwy cyfartal yn wlad lle y mae'r defnyddwyr mwyaf yn dysgu lleihau eu heffaith, a sicrhau bod rhan decach ar gael i bawb, gan gynnwys cenedlaethau'r dyfodol.

## Cymunedau Cydlynus

Mae preswylwyr DUBau wedi'u cysylltu â'u cymuedau lleol ac yn cymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau cymunedol ffurfiol ac anffurfiol, yn amrywio o gefnogi tafarndai a swyddfeydd post i wasanaethu fel llywodraethwyr ysgol a threfnu digwyddiadau. Yn ychwanegol, mae tua hanner y safleoedd DUB yn cynnwys plant, ffaith sy'n hanfodol i ddyfodol cymunedau ac ysgolion gwledig.

## Diwylliant Bywiog Lle Mae'r Gymraeg yn Ffynnu

Mae gan breswylwyr DUB sgliau iaith Cymraeg uwch na'r cyfartaledd, gan gynnwys siaradwyr iaith gyntaf, dysgwyr gweithredol a rhieni yn cofrestru eu plant yn addysg cyfrwng-Cymraeg.

## Yn Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang

Y cymhelliad dros Ddatblygiad Un Blaned yw'r Ôl-troed Ecolegol, bod yn gyfrifol yn fyd-eang, a defnyddio ond rhan deg o adnoddau'r ddaear. Yn ychwanegol, mae DUB yn cyfrannau at leihau carbon drwy blannu coed, a lleihau defnydd at lefelau cynaliadwy.

**Yr hyn sy'n unigryw am DUB yw ei fod yn darparu'r holl fuddion hyn gyda'i gilydd, mewn ffordd integredig, gan ymateb mewn ffordd sensitif i'r lleoliad, a heb gefnogaeth arian cyhoeddus.** Mae ein hargymhellion am wella gallu'r polisi i hyrwyddo'r cyfraniadau hyn drwy wella ei hygyrchedd i bawb, a lleihau'r llwyth gwaith gweinyddol canfyddedig ar adrannau cynllunio.

Yn 2030, hoffwn weld


- **Mwy o Ddatblygiadau Un Blaned**
Mae'r dystiolaeth uchod yn dangos yn glir manteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol Datblygiadau Un Blaned i gymunedau gwledig. Yn 2030, byddai mwy o DUBau yn darparu mwy o'r buddion hynny ac, yn ogystal, yn gallu ffurfio rhwydweithiau lleol i gynnal prosiectau mwy uchelgeisiol.

- **Mwy o amrywiaeth ymysg ymarferwyr DUB**
Lleihau'r rhwystrau at fynediad, gan gyfeirio'n benodol at ystyriaethau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, a fyddai'n golygu bod pobl o gefndiroedd cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd ehangach yn gallu bod yn rhan o Ddatblygiad Un Blaned. Byddai hyn yn cefnogi arloesedd yn ogystal â chynhwysiant, a dangos sut y gall pawb, ac nid ond ychydig, feddu ar ôl-troed ecolegol Un Blaned.

- **Mwy o amrywiaeth o ran safleoedd DUB**
Ar hyn o bryd mae'r mwyafrif o safleoedd DUB yn dyddynod un-aelwyd perchnogion preswyl. Ond mae modelau eraill yn bosibl. Mae potensial mawr am grwpiau aml-uned neu ddatblygiadau a gynlluniwyd i gyfrannu at gynlluniau datblygu lleol, a chynnig trefniadau tenantiaeth cymysg sy'n hyrwyddo hygyrchedd ehangach.







# **CRYNODEB O'R CANFYDDIADAU** A'R ARGYMHELLION



*Cefnogi ceisiadau DUB yng Nghymru, er budd pawb.*

# PERFFORMIAD A GWEITHREDIAD PARHAUS DUBAU

6

## CANFYDDIADAU ALLWEDDOL

- Mae ein tystiolaeth fanwl yn dangos bod Datblygiadau Un Blaned yn cyrraedd eu targedau, yn unol â'r polisi a'r Canllaw Ymarfer.
- Mae Datblygidau Un Blaned yn gweithredu o fewn ei rhan deg o adnoddau'r Ddaear, ac yn meddu ar Olion Troed cyfartalog sydd yn sylweddol is na'r lefel Un Blaned.
- Mae DUBau yn darganfod, yn treialu a rhannu datrysiadau arloesol gan gynnwys ynni adnewyddadwy, rheoli dŵr a gwastraff, cadwraeth ac adfer ecolegol ac adeiladu di-garbon.
- Mae DUBau yn cefnogi natur a bioamrywiaeth ar, ac oddiar y safle. Mae safleoedd DUB yn creu ystod amrywiol o gynefinoedd nid er gwaetha'r datblygiad ond yn uniongyrchol, er mwyn cynnal gwasanaethau ar gyfer y preswylwyr dynol: bwyd, tanwydd gwresogi, dŵr a chymathu gwastraff, bywiolaeth a chartref.
- Gwelir defnydd yn uwch na'r cyfartaledd o'r iaith Gymraeg ar aelwydydd DUB (lefelau cyfartalog o rugledd, lefelau dysgu gweithredol uwch na'r cyfartaledd a lefelau uwch na'r cyfartaledd o gofrestru plant yn addysg cyfrwng-Cymraeg).
- Mae data DUB yn adnodd amhrisiadwy nad yw'n cael ei gasglu gan naill ai ACLI neu Lywodraeth Cymru.

## ARGYMHELLION AM WELLIANT

- Dylid darparu adroddiadau cynnydd blynyddol ar ffurf templad syml, safonol (a allai fod, er hwylustod, ar ffurf arlein) ac yn cael eu coladu'n ganolog yn hytrach nag yn cael eu cadw gan swyddogion cynllunio unigol.
- Dylai Llywodraeth Cymru gydweithio gydag awdurdodau lleol a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth i greu polisi preifatrwydd clir o ran cadw gwybodaeth personol mwn adroddiadau cynnydd DUB.
- Gyda chaniatâd cyflwynwyr y data, dylid sicrhau bod data meintiol o'r adroddiadau cynnydd ar gael at ddefnydd ymchwil.
- Ni ddylid archwilio'r adroddiadau cynnydd mewn manylder onibai y codir bryderon.
- Dylid diweddaru'r Gyfrifiannell Ôl-troed Ecolegol, gyda'r newidiadau o flaenoriaeth yn cynnwys cywiriad ar gyfer chwyddiant ac ychwanegu categori ar gyfer prynu bwyd a dyfir yn lleol. Dylid hefyd diweddaru'r amcangyfrif Ôl-troed Ecolegol cenedlaethol o fewn y pum mlynedd nesaf, er mwyn cymryd i ystyriaeth amgylchiadau cenedlaethol a rhyngwladol newidiol.
- Dylai'r Canllaw Ymarfer diwygiedig ail-fframio flaenoriaethau Datblygiad Un Blaned a phwysleisio'r Ôl-troed Ecolegol a gwerth bioamrywiaeth ac adfer natur fel cyfraniadau sylfaenol DUB, yn hytrach na chynhyrchiant economaidd. Gallai'r newid pwyslais hwn hefyd hyrwyddo datrysiadau creadigol i heriau eraill, megis yr ystyriaeth o gyfnodau bywyd newidiol.

# Y BROSES YMGEISIO AM GANIATÂD CYNLLUNIO

## CANFYDDIADAU ALLWEDDOL

- Er bod tipyn o ddiddordeb mewn DUB mae'r nifer o geisiadau yn isel iawn.
- Mae'r rhwystrau at fynediad yn cynnwys cost ac argaeledd tir addas, yr ansicrwydd sydd ynghlwm â chyflwyno cais cynllunio, y gwaith papur sydd ei angen wrth lunio cynllun rheoli, cost cais cynllunio a'r amser a gymerir i dderbyn penderfyniad.
- Mae'r rhain hefyd yn rhwystrau i Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ar draws nodweddion gwarchodedig lluosog, ac o ran nodweddion eraill megis niwrowahaniaeth, iechyd meddwl a chefndir addysgol neu economaidd-gymdeithasol.
- Yn gynyddol, mae ACLl yn cymryd amser hir iawn i benderfynu ar geisiadau DUB (cyfartaledd o 16 mis), sydd yn beth drwg i'r ymgeiswyr a'r cynllunwyr fel ei gilydd, ac hefyd â goblygiadu negyddol ar CAC. Mae ceisiadau llwyddiannus yn gallu wynebu oedi pellach o ran penderfynu ar gytundebau Adran 106, manylion draeniad cynaliadwy a rheoli maeth.
- Ambell waith mae ACLlau yn gwrthod ceisiadau am resymau nad ydynt yn berthnasol i DUB (megis eu bod yng nghefn gwlad agored neu wedi'u drysu gyda pholisïau gwledig eraill), gan olygu costau apeliadau llwyddiannus ychwanegol, diangen.
- Mae'r gweithdrefnau asesu ceisiadau DUB yn amrywio'n fawr rhwng adrannau cynllunio ACLl.

## ARGYMHELLION AM WELLIANT

- Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu a chyhoeddi canllaw statudol newydd (diweddariad neu fersiwn newydd o'r Canllaw Ymarfer DUB presennol) wedi'i fframio gan Lesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a phwysigrwydd Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, i leihau cymhlethdod y cais ac asesiad DUB ac ail-fframio'r blaenoriaethau. Mae'r Cyngor Un Blaned wedi cynnig set o argymhellion penodol ar gyfer y diweddariad hwn.
- Dylai Llywodraeth Cymru gydweithio gydag awdurdodau lleol i adolygu gweithdrefnau ACLl wrth asesu ceisiadau DUB, a chynnwys argymhellion trefniadol yn y canllaw statudol newydd.
- Dylai Llywodraeth Cymru gynnig cyllid ychwanegol neu gymorth/ hyfforddiant a dargedir i ACLl, er mwyn gwella eu gallu i asesu ceisiadau DUB.
- Dylai rhai Awdurdodau Cynllunio Lleol ystyried darparu neu gomisiynu hyfforddiant mwy effeithiol ar gyfer pwyllgorau cynllunio fel eu bod yn gwbl ymwybodol o anghenion Datblygiad Un Blaned.
- Lle y bo angen ymgymeriad Adran 106 yn ogystal ag amodau cynllunio, dylid darparu templad safonol a defnyddio'r un geiriad ar bob safle DUB, onibai bod amgylchiadau arbennig yn bodoli. Mae'r Cyngor Un Blaned wedi cynnig templad, a seilir ar geisiadau diweddar a gymeradwywyd.

# POTENSIAL DUB YN Y CYD-DESTUN EHANGACH

## CANFYDDIADAU ALLWEDDOL

- Mae safleoedd Datblygiad Un Blaned yn dangos y ffordd ymlaen i Gymru i fod yn Genedl Un Blaned. Mae'r polisi Datblygiad Un Blaned yn helpu Cymru gyflawni nodau Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol.

- Yr hyn sy'n unigryw am DUB yw ei fod yn darparu buddion lluosog gyda'i gilydd, mewn ffordd integredig, gan ymateb yn sensitif i leoliad, a hynny heb gymorth cyllid cyhoeddus.

- Mae enw da yn rhngwladol i Ddatblygiad Un Blaned, ac mae'n llywio datblygiad polisi mewn gwledydd eraill.

## ARGYMHELLION AM WELLIANT


- Mae Datblygiadau Un Blaned yn arloeswyr adfer natur. Dylid defnyddio dysg o safleoedd DUB i lywio fframweithiau adfer natur ehangach.

- Mae gan y polisi DUB gyfle clir i wella o ran Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, yn bennaf drwy leihau cymhlethdod ymgeisio ac asesu. Yr ydym wedi argymell ffordd o wneud hyn heb gyfaddawdu safonau a llymder y polisi.

- Dylai Llywodraeth Cymru gydweithio gydag awdurdodau lleol i adnabod cyfleoedd hyrwyddo Datblygiad Un Blaned.

- Byddai gweithredu ein hargymhellion yn llawn yn galluogi mwy o Ddatblygiadau Un Blaned, mwy o amrywiaeth ymysg ymarferwyr DUB a mwy o amrywiol safleoedd DUB, a mynd i'r afael â'r pryderon sydd wedi'u mynegi ynghylch Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant a helpu cyflwani amcanion y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

- Mae'r Cyngor Un Blaned yn barod i gydweithio gyda Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Cynllunio Lleol neu unrhyw randdeiliad sydd â diddordeb ynghylch ffyrdd o hyrwyddo amcanion Datblygiad Un Blaned a chyflawni buddion pellach drwy rannu ac arloesi'n ehangach.



*Llun gan Mania Naimen*

# GWYBODAETH AM Y **CYNGOR UN BLANED**

Mae'r Cyngor Un Blaned yn gorff gwirfoddol annibynnol sy'n cefnogi datblygiad Un Blaned yng Nghymru a thu hwnt. Mae'r Cyngor Un Blaned yn fan cyswllt rhwng ymgeiswyr ac awdurdodau cynllunio lleol, yn cynnig canllawiau ac arfau i gefnogi unrhywun sy'n pontio i'r ffordd o fwy mwy cynaliadwy hyn. Yr ydym hefyd yn gweithio gyda'r rhai sydd eisoes wedi gwneud y cam mawr hwnnw, a gyda gwnethurwyr polisi, academyddion a thirfeddianwyr.

Gan gynnwys cynrychiolaeth eang, mae'r Cyngor Un Blaned yn cynnwys pobl o bob math, gan gynnwys arbenigwyr sy'n meddu ar wybodaeth a phrofiad men meysydd cysylltiedig megis cynllunio, adeiladu, rheoli tir, ffermio, gwyddoniaeth hinsawdd, hunan-gyflogaeth, economeg a llesiant.

Ein hamcanion:

- Hyrwyddo ystod eang o esiamplau o brosiectau Datblygiad Un Blaned ledled Cymru, yn cynnwys pobl o bob math.
- Gweld y safleoedd hyn yn ysbrydoliaeth i bobl Cymru, a thu hwnt.

## CYFLAWNIADAU NODWEDDIADOL Y CYNGOR UN BLANED

- Trefnu a chyflwyno Hyfforddiant DUB a arweiniwyd gan arbenigwyr gerbron swyddogion cynllunio awdurdodau lleol ac annibynnol, a darpar ymgeiswyr.
- Cyhoeddi cyfres o Ddatganiadau Sefyllfa i egluro polisi ac argymhellion ymarferol.
- Ymchwilio a chyhoeddi'r adrodiad hwn, Adolygiad o Ddatblygiad Un Blaned yng Nghymru 2010-2021
- Creu a threfnu Wythnos Agored Flynyddol fel bod aelodau'r cyhoedd yn gallu ymweld â, a theithio o gwmpas, DUBau sy'n rhan o'r cynllun.
- Creu a lansio Label Cynnyrch DUB er mwyn helpu ymarferwyr farchnata cynnyrch a chrefftau.
- Cynnal Cyfarfodydd Agored i'r cyhoedd mewn gwahanol ardaloedd o Gymru.

Hoffai'r Cyngor Un Blaned ddiolch i'r holl ymarferwyr DUB a oedd wedi cwblhau ein harolwg, ac wedi cynnig eu geiriau, eu profiadau a'u cefnogaeth. Hoffwn hefyd ddiolch i'r llu o swyddogion cynllunio, cynghorwyr ac ymgynghorwyr cynllunio sydd wedi trafod DUB gyda ni dros y blynyddoedd, yr academyddion sydd wedi astudio DUB yn fwy ffurfiol (yn enwedig Brett Sanders, y defnyddiwyd ei waith yn adran 3), a phawb sydd wedi bod yn rhan o ddatblygiad cychwynnol y polisi DUB. Diolch o galon i chi gyd.

www.oneplanetcouncil.org.uk
www.twitter.com/OnePlanetC
www.facebook.com/groups/oneplanetcouncil
info@oneplanetcouncil.org.uk



Cyfieithiad: Martin Davies

Dylunio Graffig: Luke Pajak

Ffotograffau gan Hayley Nia Thomas, onibai lle y nodir fel arall.

Argraffwyd yng Nghymru ar bapur a ailgylchwyd.